*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 15 EBRILL 2024** yn rhithiol **trwy Zoom**, yn dechrau **am 09.30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant**

8. **Diweddariad ar yr yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

9. **Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-29**

10. **Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru**

11. **Alldro Dros Dro 2023/24**

12. **Datganiad Polisi Tâl 2024/25**

13. **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25**

14. **Strategaeth Gyfalaf 2024/34**

**Parhad…**

## 15. Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn

## 16. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

### i) Cod Ymddygiad yr Aelodau

## 17. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## <u>RHAN II</u>

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 18. Dim

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 22 Ionawr 2024** yn rhithiol drwy **Zoom.** Dechreuodd y cyfarfod am **09.30 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth R Jones (tan 09:25) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Euros Lake | Archwilio Cymru |
| Rachel Harries | Archwilio Cymru |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Cyflwynwyd sesiwn yn ystyried proses gwneud penderfyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a Diwylliant i Aelodau gan y Prif Swyddog Tân (PST) cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB (ATA) A GYNHALIWYD AR 16 HYDREF 2023 A'R CYFARFOD EITHRIADOL ATA A GYNHALIWYD AR 18 RHAGFYR 2023

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod eithriadol o'r Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023 i'w cymeradwyo.

4.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion ATA o 16 Hydref 2023 a 18 Rhagfyr 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

## 5 MATERION SY'N CODI

5.1 Mewn perthynas â chofnodion cyfarfod 16 Hydref 2023, gofynnwyd am ddiweddariad ar gyfer eitem 15.7 a oedd yn cyfeirio at y Ganolfan Hyfforddi Newydd. Cadarnhaodd DBST Forshaw, yn dilyn cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer prynu'r tir, eu bod wedi cysylltu â chyfreithwyr a bod y broses o gwblhau prynu'r tir yn mynd rhagddi. Roedd disgwyl ei chwblhau dros yr wythnosau nesaf.

5.2 Mewn perthynas â chofnodion cyfarfod 18 Rhagfyr 2023, dywedodd PST Docx wrth yr Aelodau fod grŵp Gorchwyl a Gorffen bellach wedi'i sefydlu a'i fod yn cael ei arwain gan y RhA Ant Jones. Roedd cyfarfod ffurfiol gydag Undeb y Brigadau Tân (FBU) eisoes wedi ei gynnal a chynigiwyd lle iddynt ar y grŵp hwnnw. Anfonwyd cais hefyd at bob gweithiwr am wirfoddolwyr o unrhyw adran neu ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i eistedd ar y grŵp hwn. Dylai'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal cyn diwedd y mis. Byddai opsiynau'n cael eu datblygu a'u dychwelyd i'r Aelodau.

## 6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau i'w hysbysu am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn eu swyddogaethau swyddogol rhwng mis Hydref 2023 a mis Rhagfyr 2023.

6.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.**

## 7 ALLDRO DROS DRO 2023/24

7.1 Cyflwynodd y PSTC HM y papur Alldro Dros Dro 2023/24 sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y rhagolwg gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24, fel yr oedd ar 30 Tachwedd 2023.

7.2 Nodwyd bod yr holl bapurau ariannol ar yr agenda yn rhyng-gysylltiedig ac felly efallai y bydd rhywfaint o ddyblygu gwybodaeth.

7.3 Nododd Dafydd Edwards, Trysorydd, fod yr angen i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi bod yn is yn 2023/24 nag y rhagwelwyd yn flaenorol, sef tua £1m. Byddai hyn felly yn galluogi i'r £1m sy'n weddill o'r £2m a ddisgwyliwyd yn wreiddiol i gael ei wario o gronfeydd wrth gefn yn 2023/24 gael ei ddefnyddio ar gyfer 2024/25.

7.4 Nodwyd hefyd fod gwariant eiddo wedi cynyddu gyda gorwariant yn 2023/24 a chadarnhaodd PSTC MacArthur fod hyn yn bennaf oherwydd effaith Covid a oedd yn golygu bod yn rhaid atal gwariant ar safleoedd. Llwyddwyd i ddal i fyny â'r gwaith ar orsafoedd yn 2023/24 gyda'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw arferol bellach yn ôl ar y trywydd cywir, ac felly ni fydd pwysau o fewn y gwaith adeiladu ar yr un lefel y flwyddyn nesaf.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r rhagamcanion alldro cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel y manylir yn yr adroddiad;**

**ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi; a**

**iii) chymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn cyffredinol.**

## 8 PENNU CYLLIDEB 2024/25 A STRATEGAETH ADNODDAU TYMOR CANOLIG

8.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, y Strategaeth Pennu Cyllideb ac Adnoddau Tymor Canolig 2024/25 i'r Aelodau, a'i diben oedd cynnig trosolwg cyllideb manwl i'r Aelodau sydd wedi'i gynnwys yn Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (SATC) 2024/25 - 2026/27 yr Awdurdod, gan gynnwys risgiau ac ansicrwydd cysylltiedig.

8.2 Llongyfarchodd y Trysorydd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb ar y gwaith yr oeddent wedi'i wneud ar y broses o bennu'r gyllideb, a dywedodd wrth yr Aelodau fod manylion yr ardoll i awdurdodau cyfansoddol wedi'u nodi ar dudalen 57 a bod y gwahaniaeth yn y symiau i'w talu yn ddibynnol ar boblogaeth. Roedd y rhai a oedd yn gorfod talu mwy yn derbyn dyraniad uwch o Setliad Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol yn unol â hynny.

8.3 Roedd y cynnydd yn yr ardoll wedi'i ostwng o tua 15% i 10.8% yn dilyn gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Fodd bynnag, ar ôl derbyn llythyr gan y Dirprwy Weinidog yn annog y Gwasanaeth i gadw'r cynnydd yn yr ardoll mor isel â phosibl, gwnaed penderfyniad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i dalu am rywfaint o wariant eithriadol untro neu anghylchol er mwyn ei ostwng i'r cynnydd o 8.8% sy'n cael ei gynnig heddiw.

8.4 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi na chaniateir defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi gwasanaethau craidd ac felly dim ond gwariant eithriadol untro neu anghylchol y gellid ei gwmpasu.

8.5 Diolchodd PSTC MacArthur i'r Adran Gyllid a'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, a oedd wedi bod yn gweithio'n galed ers mis Hydref i roi'r cynnig cyllideb hwn at ei gilydd.

8.6 Dywedodd Cadeirydd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wrth yr Aelodau fod gwaith wedi'i wneud mewn modd parchus a chydag argyfwng costau byw mewn golwg. Roedd perthynas waith dda gyda'r Swyddogion a theimlai fod cyfranogiad yr Aelodau yn y broses o bennu'r gyllideb yn hanfodol.

8.7 Gofynnwyd a oedd y Gwasanaeth yn fodlon â'r risg o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel rhan o bennu'r gyllideb, gan y byddai hyn yn amlwg yn gwacáu'r cronfeydd wrth gefn ymhellach, a beth pe bai'r Gwasanaeth eu hangen ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Gofynnwyd ymhellach a fyddai unrhyw negeseuon i'r Aelodau eu dychwelyd at eu hawdurdodau cyfansoddol.

8.8 Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai papur briffio ar gyfer yr Aelodau yn cael ei gynhyrchu yn dilyn y cyfarfod. Cadarnhaodd ymhellach ei bod yn fodlon bod y cynnig i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 wedi'i seilio ar wariant anghylchol neu eithriadol; fodd bynnag, roedd ychydig o risgiau posibl yn weddill megis cyflog, pensiynau a chyfnodau pan fyddai'r galw yn drymach na'r arfer (*spate*). Pe bai hynny'n digwydd, byddai angen ailedrych ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a allai arwain at yr angen i ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn yn y dyfodol.

8.9 Dywedodd Aelod fod y rhain yn amseroedd anodd a digynsail ac y dylid canmol pawb a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r gyllideb hon am eu gwaith caled yn gostwng y cynnydd fel ei fod islaw ffigurau dwbl. Gofynnodd hefyd i gyllidebau yn y dyfodol gael eu cadw i gynnydd mor isel â phosibl.

8.10 Holodd un Aelod am ddosraniad yr ardoll ymhlith yr awdurdodau cyfansoddol a gofynnodd a oeddent yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall. Ymatebodd y Trysorydd fod dosraniad yr ardoll yn seiliedig ar boblogaeth, yn yr un modd â'r grant llywodraeth leol. Bu newid yn y ffigurau poblogaeth y flwyddyn ariannol hon oherwydd cyflwyno'n raddol ffigurau poblogaeth o'r cyfrifiad diwethaf a arweiniodd at gynnydd yn y boblogaeth yn ardaloedd rhai awdurdodau a gostyngiad mewn eraill. Cadarnhawyd na ddylid gweld unrhyw newid sylweddol i ffigurau'r boblogaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

8.11 Gofynnodd Aelod arall am enghraifft o'r costau untro a oedd yn cael eu cwmpasu trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Gofynnwyd hefyd a oedd camau yn cael eu cymryd i arbed arian ar wariant cyfalaf os yw'n bosibl, a ph'un a allai'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb gyfarfod yn amlach yn y dyfodol.

8.12 Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod trafodaethau ar y gweill i gynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd o'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

8.13 Rhoddodd PSTC MacArthur enghreifftiau pellach o wariant untro sy'n cael ei gwmpasu gan gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys costau eithriadol untro ar gyfer cyflwyno Microsoft 365 ar draws y Gwasanaeth a chyflwyno citiau tanau gwyllt.

8.14 Cadarnhawyd bod y rhaglen gyfalaf yn seiliedig ar wariant hanfodol a bod ffocws ar gynaliadwyedd lle bo hynny'n bosibl.

8.15 Gofynnodd Aelod a ystyriwyd fformiwla Barnett wrth gyfrifo'r ardoll, a chadarnhaodd y Trysorydd na wnaed hynny oherwydd nad dyna'r fformiwla a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu setliad llywodraeth leol.

8.16 Gofynnwyd i PSTC MacArthur gadarnhau pwy gyfrifodd y dosraniad ar gyfer yr awdurdodau cyfansoddol ac ymatebodd hi fod y fformiwla ariannu wedi'i datblygu gan Lywodraeth Cymru, gyda chynrychiolaeth gan awdurdodau lleol ac nad oedd gan y Gwasanaeth unrhyw hyblygrwydd yn hyn o beth.

8.17 Cadarnhaodd y Trysorydd y byddai'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn cael ei gynnull yn gynharach eleni er mwyn dechrau'r gwaith ar y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

8.18 Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod dwy fformiwla wahanol o safbwynt y gyllideb: yr un a ddefnyddid ar gyfer y setliad llywodraeth leol a oedd hefyd yn ystyried ffactorau fel dwysedd gwledig ac amddifadedd, a'r un a ddefnyddid ar gyfer dyrannu'r ardoll a oedd yn seiliedig ar boblogaeth yn unig. Dyma ran o'r rheswm pam y ceir lobïo ar gyfer ardoll praesept.

8.19 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi canfyddiadau Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;**

**ii) cymeradwyo'r asesiad cynllunio ariannol terfynol o ofyniad cyllideb net o £48.322m ar gyfer 2024/25 gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £0.924m;**

**iii) nodi'r gofyniad i adolygu'r gweithgaredd lleihau tanau bwriadol yn ystod 2024/25 er mwyn ystyried y ddarpariaeth yn y dyfodol yn dilyn y gostyngiadau grant;**

**iv) nodi'r risgiau a'r ansicrwydd gweddilliol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn 2024/25 mewn perthynas â dyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol a chymorth ariannol ar gyfer y cynnydd pensiwn disgwyliedig;**

**v) cymeradwyo'r asesiad cynllunio terfynol o £5.676m ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25;**

**vi) nodi'r cynllun cyfalaf 10 mlynedd a'r gofyniad ar wahân i ystyried yr achos busnes ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd yn ystod 2024/25; a**

**vii) chymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol i bob awdurdod lleol cyfansoddol.**

## 9 DIWEDDARIAD RHEOLI'R TRYSORLYS CH2 2023/24

9.1 Cyflwynodd PSTC HM Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch2 2023/24 i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith rheoli'r trysorlys, yn ogystal â chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus o ran rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023.

9.2 Nodwyd bod Aelodau'r Pwyllgor Archwilio eisoes wedi craffu ar yr adroddiad hwn a'i gymeradwyo.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2023.**

## 10 PROTOCOL AR RODDION A LLETYGARWCH

10.1 Cyflwynodd Clerc yr Awdurdod y protocol diwygiedig ar roddion a lletygarwch i'r Aelodau ei gymeradwyo.

10.2 Nodwyd bod fformat y ddogfen wedi newid ychydig a bod argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau wedi eu cynnwys.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r polisi a'r weithdrefn rhoddion a lletygarwch.**

## 11 MATERION BRYS

11.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Ebrill 2024.

**Cau'r cyfarfod: 10:35**

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.llyw.cymru) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 B'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd mewn nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Dylai'r Aelodau:

i) nodi'r wybodaeth a roddwyd.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â chyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân yn rheolaidd.

6 Ar 19 Ionawr aeth y Cadeirydd i'r Seremoni o Gyflawniad yng Ngorsaf Dân Porthaethwy a chyflwynodd dystysgrifau i'r disgyblion ysgol oedd wedi cwblhau'r cwrs.

7 Ar 19 Chwefror mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol gyda'r Dirprwy Weinidog Hannah Blythyn AS a'i chynghorwyr.

8 Ar 4 Mawrth mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol pellach gyda'r Dirprwy Weinidog a'i chynghorwyr.

9 Ar 6 Mawrth, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i Orsaf Dân y Trallwng a chwrdd â Chadeirydd a Phrif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

10 Ar 11 Mawrth aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod y Partneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

11 Hefyd, ar 11 Mawrth rhoddodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân dystiolaeth i'r "Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol" yn y Senedd.

12 Ar 14 Mawrth cyfarfu'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân â chynrychiolwyr yr Undeb y Brigadau Tân i drafod agenda'r Panel Gweithredol sydd i ddod.

13 Ar 15 Mawrth, aeth y Dirprwy Gadeirydd i'r Seremoni o Gyflawniad yng Ngorsaf Dân Llanfairfechan a chyflwynodd dystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cwrs.

14 Ar 20 Mawrth aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod ymgynghori cyflog rhithiol o'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (N.J.C.).

15 Ar 17 Chwefror, mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir gan aelodau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Adolygiad Diwylliannol Annibynnol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am daith ddiwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) a'r cynnydd tuag at gomisiynu Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Dechreuodd gwaith o ddatblygu'r diwylliant o fewn GTAGC yn 2021. Ym mis Mawrth 2024, cytunwyd gyda'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol i gomisiynu adolygiad annibynnol o ddiwylliant ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at gynnydd parhaus GTAGC o ran gwella amgylchedd gwaith gweithwyr a darparu Gwasanaethau i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

3 Mae'r papur hwn yn adeiladu ar y diweddariad llafar a roddwyd i Aelodau'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio gan y Prif Swyddog Tân ar 18 Mawrth 2024.

**ARGYMHELLIAD**

4 Dylai'r Aelodau:

i) Nodi cynnwys y papur; a
ii) chymeradwyo creu cronfa wrth gefn i ariannu'r adolygiad annibynnol a'r rolau ategol o fewn y Gwasanaeth.

**CEFNDIR**

5 Ers penodi'r Prif Swyddog Tân newydd yn 2021, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cefnogi ei hawydd i wella GTAGC a'i ddiwylliant. I'r perwyl hwnnw, cefnogodd yr Aelodau ganfyddiadau'r Prif Swyddog Tân pan adroddodd yn ôl iddynt ar ôl ymweld â phob gorsaf, criw ac adran yn ei 100 diwrnod cyntaf.

6 Yn yr un modd, cymeradwyodd yr Aelodau'r angen i gynnal arolwg annibynnol ddiwylliant ym mis Medi 2021 fel asesiad sylfaenol o'r diwylliant presennol. Yn dilyn hyn, crëwyd cynllun gweithredu i wella diwylliant y Gwasanaeth. Cafodd y cynnydd a wnaed dros 24 mis ei ailasesu gydag arolwg diwylliannol annibynnol arall ym mis Medi 2023 ac adroddwyd yn ôl i Aelodau'r Awdurdod mewn Seminar Diwylliant i Aelodau ym mis Chwefror 2024.

7 Yn y cyfamser, ar 3 Ionawr 2024, cyhoeddwyd yr Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant Gasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Mewn ymateb i'r canfyddiadau ar 5 Chwefror 2024, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn, fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael ei ddileu a phenodi pedwar comisiynydd annibynnol i sicrhau bod argymhellion yr adolygiad a'r rhai a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn cael eu gweithredu.

**GWYBODAETH**

8 Cyfarfu Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân â'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion ar 19 Chwefror a 4 Mawrth 2024 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran diwylliant o fewn GTAGC. Mae'n cydnabod bod GTAGC a GTACGC mewn lle gwahanol ar eu taith ddiwylliannol i GTADC. Mae'r ddau Wasanaeth yn cytuno â datganiad y Dirprwy Weinidog a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth 2024 y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn esiampl o gynwysoldeb a chefnogaeth, nid yn unig i'w gweithluoedd, ond i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

9 I hybu'r bwriad hwn, cynigiodd GTACGC a GTAGC i'r Dirprwy Weinidog y byddent yn comisiynu gwasanaeth arbenigwr diwylliant sefydliadol allanol ar y cyd i gynnal adolygiad o'r cynnydd y mae'r ddau GTA yn ei wneud. Cytunwyd ar hyn ac roedd yn sail i'r datganiad a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog ar 11 Mawrth 2024.

10 Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i gytuno ar sail pwyntiau bwled datganiad y Dirprwy Weinidog a'r bwriad yw caffael y gwasanaethau hyn drwy fframwaith. Hyd nes y derbynnir tendrau ni allwn fesur y gost i GTAGC ond byddai'n ddoeth creu cronfa wrth gefn i ariannu'r adolygiad a swyddi dros dro i gefnogi'r llwyth gwaith.

11 Fel rhan o'r adolygiad arfaethedig, a thrwy'r darparwr arbenigol penodedig, ceisir barn a phrofiadau partïon â diddordeb, gan gynnwys staff presennol a chyn-aelodau o staff. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu casglu a'u hystyried er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yng nghasgliadau cyffredinol yr adroddiad a chynlluniau gweithredu'r dyfodol. Mae'r ddau GTA wedi cytuno y bydd adborth o'r fath yn cael ei gyfyngu i brofiadau o fewn amserlen benodol, sydd eto i'w chytuno.

12 Bydd yr adroddiad terfynol gan yr arbenigwyr diwylliant annibynnol, ynghyd ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdodau Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru, fel tystiolaeth bellach o sicrwydd annibynnol. Rhagwelir y bydd y ddau adolygiad ar wahân hyn yn cyfrannu at gynnydd parhaus GTACGC a GTAGC o ran gwella eu diwylliant sefydliadol tra hefyd yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd i randdeiliaid o ymrwymiad a chynnydd y ddau Wasanaeth i newid diwylliannol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Bydd y gwaith parhaus hwn yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru Fwy Cyfartal a Chymru Iachach |
| Cyllideb | Bydd cronfa wrth gefn yn cael ei rhoi o'r neilltu i ariannu'r adolygiad a rolau dros dro i gefnogi'r broses |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staffio | Bydd hyn yn cael ei benderfynu unwaith y bydd y tendrau ar gyfer y gwaith adolygu wedi'u hasesu |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi sicrwydd ac arweiniad ar barhau i wella diwylliant o fewn GTAGC |
| Risgiau | Mae Datganiad y Gweinidog wedi codi disgwyliadau rhanddeiliaid a gweithwyr y dylid eu bodloni. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfform a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR)** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR), a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023 i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023, wrth ystyried pa opsiwn o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i'w weithredu, penderfyniad yr Awdurdod oedd:

- *Yr Aelodau'n gofyn i'r Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid er mwyn datblygu opsiwn newydd parhaol, gan ystyried y penderfyniad a wneir heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig.*

3 Gofynnwyd am fynegiadau o ddiddordeb gan staff o bob lefel ar draws adrannau gwasanaeth, gorsafoedd a systemau dyletswydd, ac ym mis Ionawr 2024 sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae Undeb y Brigadau Tân hefyd yn cael eu cynrychioli ac maent wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod hyd yn hyn.

4 Nod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys oedd dechrau o'r newydd, gan ddod i ddeall yr heriau o ran y gwaith cynllunio a'r ymyriadau dyddiol sydd eu hangen ar hyn o bryd er mwyn cefnogi darpariaeth frys sy'n decach, ac yna i archwilio sut y gellir gwneud gwelliannau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o fewn y gyllideb.

5 Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar sut y gallai newidiadau i'r dull presennol o ddarparu'r gwasanaeth gynnig gwell tegwch o ran darpariaeth frys warantedig ar draws Gogledd Cymru gyfan, yn enwedig yn ystod y dydd.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr aelodau o’r blaen.

## ARGYMHELLIAD

7 Gofynnir i’r Aelodau:

i) Nodi ymgysylltiad holl fudd-ddeiliaid Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i gydweithio i ddatblygu opsiynau sy'n sicrhau gwelliannau i’r ddarpariaeth frys ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru; a

ii) nodi'r cynnydd a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hyd yn hyn.

## CEFNDIR

8 Ar ôl i’r Awdurdod gomisiynu’r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys (ECR) ym mis Medi 2021, gwnaethpwyd llawer o waith i bennu'r sefyllfa bresennol yn ogystal â chwmpas y cynigion ar gyfer gwella. Cyflwynwyd y canfyddiadau i Weithgor yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys sydd yn cael ei arwain gan Aelodau. Cyfarfu’r gweithgor naw gwaith rhwng mis Mawrth 2023 a mis Rhagfyr 2023. Bu’r grŵp yn canolbwyntio ar ystyried opsiynau o ran modelau cyflwyno gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a fyddai’n fynd i'r afael â'r heriau presennol ac yn gallu ymateb i risgiau’r ochr weithredol yn y dyfodol.

9 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023, ystyriodd yr Awdurdod bedwar opsiwn ar gyfer darpariaeth frys Gogledd Cymru yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys Opsiynau 2 a 3, a ymgynghorwyd arnynt, Opsiwn 1a, a oedd yn welliant ar Opsiwn 1 yr ymgynghoriad, ac Opsiwn 4 gan Undeb y Brigadau Tân.

10 Ni dderbyniodd Aelodau’r Awdurdod yr argymhelliad i weithredu Opsiwn 1a yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, ac yn hytrach gofynnwyd i Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys Undeb y Brigadau Tân, er mwyn datblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys decach ar draws Gogledd Cymru gyfan.

11 O ganlyniad, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ym mis Ionawr 2024, gyda chynrychiolaeth o bob system ddyletswydd a rheolaeth, ynghyd â’r staff sy'n cynllunio ac yn rheoli argaeledd adnoddau, cyllid ac Undeb y Brigadau Tân. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi'u hethol o fewn y grŵp, ac maent wedi cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod opsiynau ar gyfer darparu gwelliannau i’r ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru gyfan.

**GWYBODAETH**

12 Cynhaliodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ei gyfarfod cyntaf ar 1 Chwefror 2024, ac wedi hynny maent wedi cyfarfod ar dri achlysur arall, gyda phumed cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 3 Ebrill 2024. Cynhelir y cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mewn gwahanol leoliadau ar draws ardal y gwasanaeth er mwyn cynyddu gwelededd a hygyrchedd i staff.

13 Yn y cyfarfod cyntaf, cafwyd cyflwyniadau ar lefel y ddarpariaeth frys ar hyn o bryd, y broses a gynhelir bob dydd i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth frys, a'r cyfyngiadau ariannol a fyddai'n effeithio ar unrhyw opsiwn a gynigir. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl a phenodwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

14 Yn y cyfarfodydd dilynol a gynhaliwyd ar 20 Chwefror, 7 Mawrth a 19 Mawrth, bu'r grŵp yn trafod y model ymateb presennol mewn manylder ac yn archwilio dulliau arloesol o ddarparu model ar gyfer y dyfodol a fyddai'n bodloni meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Hefyd, cafodd y grŵp gyflwyniadau ar fodelau cyflenwi darpariaeth frys amgen gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill y DU.

15 Yn dilyn pob cyfarfod, mae aelodau'r grŵp yn siarad â'u cydweithwyr er mwyn cael adborth ar y syniadau a drafodwyd ac i sicrhau bod y gweithlu ehangach yn ymwybodol o'r datblygiadau. Mae cydweithwyr hefyd yn cael eu hannog i gyflwyno eu syniadau i gynrychiolwyr Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r grŵp.

16 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi derbyn bod angen gwella'r ddarpariaeth frys, yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Gogledd Cymru, ac maent yn deall bod yn rhaid i unrhyw gynigion a gyflwynir ganddynt fodloni meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a ddefnyddiwyd drwy gydol y broses o ddatblygu opsiynau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i'r ymgynghoriad fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae goblygiadau'r gyllideb ymgynghori wedi cael cyhoeddusrwydd yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllideb, Monitro a Chaffael. |
| Cyfreithiol | Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau i'n darpariaeth frys. Mae ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r arferion gorau y mae'r Gwasanaethau yn eu dilyn fel yr argymhellwyd gan y Sefydliad Ymgynghori yn cefnogi'r Awdurdod i fodloni'r gofynion hyn. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychiadol yn ystod y cam cyn-ymgynghori ac fe barhaodd hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiynau i'w cyflwyno, bydd y newidiadau arfaethedig o fewn yr opsiynau yn effeithio ar staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r arfer gorau y mae'r Gwasanaeth yn ei ddilyn a sicrwydd ansawdd yr ymgynghoriad gan y Sefydliad Ymgynghori yn sicrhau ffocws ar ofynion yr Awdurdod yn y maes hwn. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'i ymgynghoriad yn lleihau'r risgiau o beidio â gallu gosod cyllideb gytbwys ac ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |








# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

2024-2029




Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service






www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales



**This document is available in English**

# Contents


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Darlun Cenedlaethol | 5 |
| Y darlun lleol | 7 |
| Proffil Gogledd Cymru | 8 |
| Dyletswyddau Cyfreithiol | 9 |
| Gwerthoedd Craidd a Chod Moeseg | 11 |
| Rolau a Chyfrifoldebau | 12 |
| Ein Strategaeth 2024-2029 | 14 |
| Gweithredu Strategaeth 2024-2029 | 19 |
| Rhwydweithiau Staff | 21 |




# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-2029

## Rhagair

Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub le unigryw yn y gymuned, gan wasanaethu nid yn unig fel ymatebydd cymorth cyntaf mewn argyfwng, ond hefyd fel rhwydwaith cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl. Er mwyn cyflawni'r rôl hon yn effeithiol, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ac yn ymateb i anghenion amrywiol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn gofyn am weithlu sydd nid yn unig yn adlewyrchu eu hunaniaethau, ond sydd hefyd yn deall eu hanghenion ac sydd wedi ennill eu hymddiriedaeth.

Trwy ddatblygu a gweithredu gwerthoedd craidd ein Gwasanaeth, rydym wedi ceisio hyrwyddo cydraddoldeb, dathlu amrywiaeth, a meithrin cynhwysiant yn ein busnes o ddydd i ddydd. Mae ein hymrwymiad i'r gwerthoedd hyn wedi ein galluogi i ymgysylltu ag unigolion sydd mewn perygl mewn modd mwy effeithiol ac wedi'i dargedu, gan arwain at lefelau hanesyddol isel o farwolaethau, anafiadau a difrod o ganlyniad i dân. Mae ein hymagwedd gynhwysol tuag at staffio wedi arwain at dimau sy'n cynrychioli ystod o gefndiroedd a hunaniaethau, ond er mwyn ennill ein plwyf fel sefydliad agored, trugarog, a chynhwysol, rhaid i ni wneud mwy.

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-2029 yn adeiladu ar sail ein cynnydd blaenorol, gan ddarparu fframwaith clir ar gyfer

meithrin cysylltiadau agosach fyth â phob aelod o'n cymuned a chadarnhau ein statws fel cyflogwr delfrydol.

Ni fu pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant erioed yn fwy amlwg nag y mae heddiw. Fel cymdeithas, rydym yn wynebu ystod o heriau, o'r cynnydd mewn chwyddiant ac ansicrwydd gwleidyddol i effeithiau gweddilliol pandemig COVID-19 sydd wedi tanlinellu pwysigrwydd creu byd mwy cynhwysol a theg. Mae presenoldeb gwahaniaethau cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd, a thân Tŵr Grenfell, yn ein hatgoffa o'r effaith anghyfartal y gall trychinebau o'r fath ei chael ar gymunedau incwm isel ac ethnig amrywiol. Ar yr un pryd, ni fu erioed fwy o ganolbwynt byd-eang ar amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i sbarduno newid a meithrin diwylliant sy'n croesawu amrywiaeth, sy'n parchu gwahaniaethau ac sy'n cefnogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn.

Er mwyn parhau â'n cenhadaeth o wella bywydau'r rhai rydym yn eu gwasanaethu, rhaid i ni fyfyrio ar y rôl y gallwn ei chwarae wrth ddiogelu cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol a gwasanaethu fel cynghreiriaid gweladwy. Bydd y blaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth hon yn ein helpu i gyflawni'r nodau hyn, ond ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ac ymrwymiad ein cydweithwyr, aelodau'r Awdurdod Tân a'n partneriaid, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gilydd i wneud cynnydd ystyrlon tuag at ein gweledigaeth.

Fel Gwasanaeth Tân ac Achub, rydym wedi ymrwymo i greu gweithle cynhwysol a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n hygyrch ac sy'n berthnasol i bawb yn ein cymunedau. Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gosod fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gweithredu, ac yn nodi ein hymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein harferion a'n prosesau. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cymunedau, ein partneriaid a'n pobl i greu Gwasanaeth sy'n agored, sy'n gynhwysol ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth Gogledd Cymru.  Rwy'n falch o fod yn rhan o'r ymdrech hon ac edrychaf ymlaen at ein cynnydd parhaus tuag at ddyfodol mwy cynhwysol.

Dawn Docx
**Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr**



**Dawn Docx**
Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr



**Dylan Rees**
Cadeirydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol

# Darlun Cenedlaethol

Mae ymrwymiad y Deyrnas Unedig (DU) i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn gwasanaethau cyhoeddus wedi'i ysgogi gan nifer o bolisïau a rheoliadau'r llywodraeth, a sbardunau cymdeithasol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal ac amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu yn y gweithle. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel yr amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da ymhlith eu gweithwyr a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae sbardunau cymdeithasol megis newidiadau demograffig, ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant, a chydnabyddiaeth gynyddol o'r achos busnes dros amrywiaeth yn ysgogi mwy o ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector cyhoeddus.

Mae'r sector ei hun yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd, gyda nifer o wasanaethau tân ac achub wedi bod yn destun honiadau difrifol o fwlio ac aflonyddu. Mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) wedi creu cynllun gweithredu diwylliant sy'n cynnwys argymhellion allweddol i gynorthwyo gwasanaethau tân ac achub y DU i sicrhau newid sefydliadol cadarnhaol. Mewn sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus, adroddir bod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ar ei isaf erioed. Mae adolygiadau tebyg ym meysydd Plismona ac Iechyd wedi canfod problemau helaeth gyda chydraddoldeb mynediad, hiliaeth, homoffobia a rhywiaeth.

Mae gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yn dibynnu ar ymddiriedaeth, ac mae hyn yn cael ei ffurfio gyda phob gweithred a'r holl ryngweithio sy'n effeithio ar fywydau pobl. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn cymdeithas. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod gwasanaethau cyhoeddus yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gyda staff ac arweinwyr sy'n deall ac yn ymateb i anghenion poblogaethau amrywiol.

Yn unol â'r weledigaeth hon, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi sefydlu nifer o bolisïau a mentrau gyda'r nod o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys hyrwyddo amrywiaeth wrth recriwtio a chadw staff, cynyddu cynrychiolaeth o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhob swydd arwain, a mynd i'r afael â rhwystrau i gyfleoedd cyfartal.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n genedl wrth-hiliol. Mae mabwysiadu ymagwedd wrth-hiliol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus edrych ar y ffyrdd y mae hiliaeth wedi'i hymgorffori mewn polisïau, rheolau a rheoliadau ffurfiol ac anffurfiol ac yn gyffredinol yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn gyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth fel catalydd i wella cyfleoedd bywyd i genedlaethau o bobl ethnig leiafrifol heddiw ac yn y dyfodol. Gyda

chroestoriadedd mewn golwg, mae'r cynllun hwn hefyd yn ceisio mynd i'r afael â thlodi ar draws pob grŵp gwarchodedig.

Yn ei Chynllun gweithredu LHDTC+ i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth o newid hirdymor cynaliadwy tuag at wella bywydau pobl LHDTC+ yng Nghymru. Cydnabyddir bod anfantais, anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn parhau i fod yn realiti i lawer o bobl LHDTC+ sy'n byw yng Nghymru. Er mai hwn yw'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTC+ a'r hyn sy'n peri iddynt fod yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach i brif ffrydio cydraddoldeb a chryfhau amddiffyn hawliau dynol i bawb. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn mabwysiadu argymhellion perthnasol sy'n deillio o Gynllun Gweithredu Anabledd y Llywodraeth yn 2024.

Drwy gydnabod yr heriau o fewn y sector, ynghyd ag ymgorffori polisïau'r llywodraeth a sbardunau cymdeithasol yn ein Strategaeth, rydym yn dangos ein hymrwymiad i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac i ymateb i anghenion esblygol ein cymunedau. Bydd hyn nid yn unig yn cefnogi ein cenhadaeth gyffredinol o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, bydd hefyd yn sicrhau ein lle fel arweinydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sector cyhoeddus.

Mae'r sector tân ac achub wedi gweld newidiadau sylweddol yn ei ddull o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er hyn, mae'n amlwg bod llawer o waith eto i'w wneud. Mae llwyddiant gwasanaethau tân ac achub yn genedlaethol wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi bod yn gymysg, ac fel gwasanaeth rydym yn cydnabod yr angen i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau amrywiol, gwella cymhwysedd diwylliannol, hyrwyddo cynhwysiant mewn recriwtio a hyfforddi a dileu gwahaniaethu er mwyn sicrhau cyfle cyfartal.

Mae'r NFCC wedi datblygu cyfres o dempledi, dogfennau cyfarwyddyd a phecynnau cymorth i gefnogi gwasanaethau tân ac achub i recriwtio a chadw pobl dalentog o wahanol gefndiroedd.

Mae Llywodraeth y DU, drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, wedi nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn y sector cyhoeddus. Mae GTAGC yn rhannu ymrwymiad cadarn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i gyflawni amcanion o fewn dogfennau allweddol a bennwyd gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae grwpiau eirioli, megis y rhai sy'n cynrychioli LHDTC+, pobl anabl, menywod, unigolion ethnig lleiafrifol, a chymunedau incwm isel, hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r ymdrech hon drwy godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector Tân ac Achub.

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn ac ymdrechion rhanddeiliaid, nod y Strategaeth hon yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma ac ysgogi camau pellach ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector tân ac achub dros y pedair blynedd nesaf.

# Y darlun lleol

Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth â threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a phoblogaeth amrywiol. Er bod amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a demograffig sylweddol yn y rhanbarth, mae rhai cymunedau'n wynebu heriau penodol sy'n effeithio ar eu llesiant a'u diogelwch.

Mae'r ddemograffeg leol yn cynnwys unigolion o wahanol ethnigrwydd, oedrannau a chefndiroedd, gyda chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg o'i chymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae yna hefyd nifer sylweddol o breswylwyr oedrannus, unigolion ag anableddau, ac unigolion o aelwydydd incwm isel.

Mae gan rai ardaloedd yng Ngogledd Cymru lefelau uwch o amddifadedd a disgwyliad oes is o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda rhannau o ogledd-ddwyrain Cymru ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn rhai o'r ardaloedd hyn, mae amddifadedd yn effeithio ar 70% o aelwydydd, sy'n golygu eu bod ymhlith y tlotaf yng Nghymru. Mae'r cymunedau hyn yn fwy tebygol o wynebu heriau megis iechyd gwael, incwm isel ac allgáu cymdeithasol.

Er mwyn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau hyn, rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) ddeall a mynd i'r afael â'r heriau penodol y maent yn eu hwynebu. Mae hyn yn gofyn am ddull rhagweithiol o ymgysylltu, gweithlu sy'n ddiwylliannol gymwys, a chymorth wedi'i dargedu i helpu'r unigolion hyn i gadw'n ddiogel ac yn iach.

Gall denu a chadw gweithlu amrywiol fod yn her yn rhanbarth Gogledd Cymru. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid inni gystadlu â sectorau eraill am dalent, a'i chael hi'n anodd goresgyn stereoteipiau rhywedd, diwylliannol a chymdeithasol traddodiadol sy'n gysylltiedig â diffodd tân fel proffesiwn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, rhaid inni gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at allgymorth a recriwtio, gan weithio i feithrin cysylltiadau â chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a hyrwyddo'r gwasanaeth tân fel cyflogwr cynhwysol a chefnogol. Wrth wneud hynny, gallwn helpu i sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'u bod wedi'u hymbaratoi i ddiwallu anghenion holl aelodau'r cyhoedd.

Rhaid i ni ymdrechu i fod yn bartner dibynadwy a chynhwysol, gan weithio gyda chymunedau lleol i nodi a mynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu, a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Drwy'r dull hwn, gallwn helpu i sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel ac yn iach.



# Proffil Gogledd Cymru

**Arwynebedd:** 6,172 cilometr sgwâr

**Seilwaith:**

Mae Gogledd Cymru yn cynnwys siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam. Mae'n cwmpasu tirwedd amrywiol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, rhanbarthau mynyddig, ardaloedd arfordirol, a chymunedau gwledig. Mae gan y rhanbarth gysylltiadau da, gyda phriffyrdd, rheilffyrdd a phorthladdoedd mawr yn darparu mynediad i weddill y DU ac i Ewrop. Y ddinas fwyaf yng Ngogledd Cymru yw Wrecsam, sy'n gwasanaethu fel canolbwynt ar gyfer masnach a diwydiant, tra bod cytrefi mawr eraill yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Bae Colwyn, Glannau Dyfrdwy, Llandudno a'r Rhyl. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i sawl prifysgol a choleg, sy'n darparu cronfa talent gref ar gyfer busnesau lleol. Yn ogystal, mae'r rhanbarth yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, gan ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd gyda'i harfordir trawiadol, hanes cyfoethog, a diwylliant unigryw.

Mae'r Gymraeg, fel iaith fyw, yn parhau i fod wrth wraidd yr hunaniaeth Gymreig fodern. Mae mwynhau bywyd teuluol, addysg, gwaith a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn dystiolaeth o bwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant i bobl Cymru.

**Poblogaeth:** 687,000

**Rhaniad rhywedd:** Benywaidd 51.1%, Gwrywaidd 48.9%

**Statws traws:** Amcangyfrifir bod 0.3% o bobl yng Ngogledd Cymru yn nodi eu bod yn uniaethu â rhywedd traws a/neu anneuaidd.

**Proffil oedran:** 26.7% (0-24), 28.3% (25-49), 21.5% (50-64) 12.6% (65-74), 10.9% (75+)

**Pobl ag anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor:** 20.7%

**Ethnigrwydd**

Mae 96.8% o bobl Gogledd Cymru yn Wyn Prydeinig. Mae'r ganran yn amrywio ar draws y rhanbarth o 98.1% yn Ynys Môn i 96.0% yn Wrecsam.

**Crefydd a chred**

Nododd 49.8% o bobl eu bod yn Gristnogion, y grefydd ail fwyaf poblogaidd oedd Islam gyda 0.8% a dywedodd 41.7% o bobl nad oedd ganddynt grefydd.




# Dyletswyddau Cyfreithiol

Mae GTAGC yn rhwym i ystod o rwymedigaethau cyfreithiol a statudol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r dyletswyddau hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r risg o wahaniaethu, yn croesawu amrywiaeth yn y gweithlu ac yn cyflwyno gwasanaethau cynhwysol yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys GTAGC, i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Ers 2011, mae'r Ddeddf wedi ei gwneud yn ofynnol i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chofnodi pa gamau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael ag ef. Mae'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn dangos y gwahaniaeth yn y cyflog cyfartalog rhwng dynion a menywod ac mae'n cymharu cyfraddau tâl fesul awr y gall staff eu derbyn yn ôl rhywedd, gan geisio datgelu unrhyw anghydbwysedd. Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae'n gosod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd gwneud penderfyniadau, a bydd yn adeiladu ar y gwaith da y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus eisoes yn ei wneud.


Mae GTAGC yn ymroddedig i gynnal egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei holl weithrediadau. Yn ogystal â chael ei arwain gan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Gwasanaeth hefyd yn atebol i Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n dwyn darpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod ganddynt yr hawl i ryddid rhag gwahaniaethu, waeth beth fo'u hil, crefydd, rhywedd neu nodweddion gwarchodedig eraill. Yn ogystal, mae gan y Gwasanaeth ymrwymiad cadarn i hyrwyddo ac annog y Gymraeg ymhlith staff, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd. O'r ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sydd ar waith i sicrhau hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg, i'n hymrwymiad o'r tu mewn i'n fframwaith llywodraethu, rydym yn rhoi'r mesurau hyn ar waith i sicrhau ymrwymiad y Gwasanaeth i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn eu holl ffurfiau. Wrth gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, sy'n cynnwys y Gymraeg, ein nod yw bodloni disgwyliadau'r gymuned leol a chydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub, beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a chymryd camau rhesymol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Gellir darllen am ein hymrwymiad i gydymffurfio â'r safonau hyn a hyrwyddo'r Gymraeg ar ein gwefan.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), fel y nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol hyn yn llunio'r dull cyffredinol o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn GTAGC, ac yn llywio datblygu polisïau, arferion a mentrau sydd wedi'u cynllunio i greu gweithlu amrywiol a chynhwysol a gwasanaethu anghenion amrywiol y cymunedau yng Ngogledd Cymru.

# Gwerthoedd Craidd a Chod Moeseg




Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y safonau moesegol uchaf ym mhopeth a wnawn. Yn ogystal â'n Gwerthoedd Craidd ein hunain, rydym yn cefnogi'n llawn God Moeseg Craidd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Mae'r cod hwn yn darparu fframwaith o egwyddorion i lywio ein gweithredoedd a sicrhau ein bod yn meithrin diwylliant o gynhwysiant a chydraddoldeb.

Pum egwyddor Cod Moeseg Craidd NFCC yw: **rhoi ein cymunedau yn gyntaf; uniondeb; urddas a pharch; arweinyddiaeth; a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**. Trwy groesawu'r egwyddorion hyn yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd, ein nod yw gwella ein gwasanaeth a dangos ein hymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth.

Wrth wraidd yr egwyddorion hyn mae'r gred y dylai pawb gael eu trin â pharch ac urddas, waeth beth yw eu cefndir neu eu hunaniaeth. Byddwn yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl. Drwy wneud hynny, byddwn yn helpu i greu gwasanaeth tân ac achub sy'n cynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac y mae pawb yn ei barchu ac yn ymddiried ynddo.

Mae ymrwymiad i amrywiaeth a chynwysoldeb yn rhan ganolog o'n Gwerthoedd Craidd, ac rydym yn ymdrechu i alluogi unigolion i gyrraedd eu potensial llawn waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys gwerthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, a brwydro yn erbyn rhagfarn a gwahaniaethu.

Mae'r gwerthoedd craidd yn ganllaw i holl aelodau GTAGC, er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin ag urddas, parch a thegwch. Trwy eu hymgorffori yn ein gwaith a'n harferion beunyddiol, ein nod yw creu gweithle a chymuned fwy cynhwysol ac amrywiol. Ein gobaith yw y byddwn, drwy ymgorffori'r gwerthoedd hyn, yn esiampl o ragoriaeth yn y sector tân ac achub, ac y bydd yn ysbrydoli eraill i ddilyn ein harweiniad.




# Rolau a Chyfrifoldebau

Wrth wraidd ein strategaeth y mae ymrwymiad cadarn i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ein sefydliad. Adlewyrchir hyn yn yr amser a'r adnoddau a neilltuir tuag at sicrhau bod ein hymdrechion yn y maes hwn wedi'u cydlynu'n dda a'u blaenoriaethu.

Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb ar aelodau'r awdurdod tân, uwch swyddogion, rheolwyr neu ein harweinydd cydraddoldeb a chynhwysiant yn unig yw hyn. Mae pob unigolyn yn y sefydliad yn chwarae rhan hanfodol wrth greu amgylchedd gwaith teg a chynhwysol. Trwy groesawu egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ein nod yw sicrhau bod amrywiaeth a chynwysoldeb yn rhan naturiol o'n gweithrediadau dyddiol, waeth beth yw ein swyddi unigol o fewn y sefydliad.

Er mwyn gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn effeithiol, mae ein Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi'i ddynodi fel yr arweinydd allweddol sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio ei gweithredu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod adnoddau a chymorth digonol ar gael, a chadeirio'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant amlddisgyblaethol. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenoriaeth a bod y gwaith wedi'i gydlynu'n dda ar draws y sefydliad.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, gyda chymorth y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn gyfrifol am sicrhau gweithredu a chydlynu ein Strategaeth yn effeithiol. Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth integreiddio amcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bob lefel cynlluniau gweithredu corfforaethol, adrannol ac unigol. Mae prosesau monitro a gwerthuso rheolaidd wedi'u sefydlu i olrhain cynnydd ac asesu effaith ein mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n chwarae rhan allweddol wrth weithredu ein strategaeth, yn ymgynnull bob chwarter. Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o bob adran, system sifftiau, undeb llafur a grwpiau rhwydweithiau staff, ac unigolion sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Prif swyddogaeth y grŵp yw adolygu cynnydd ar ffrydiau gwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a dadansoddi data monitro, gan sicrhau integreiddio a gweithredu ein nodau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithiol ar draws y Gwasanaeth.

Mae rôl rheolwyr a gweithwyr mewn swyddi goruchwylio yn hanfodol wrth weithredu a hyrwyddo ein Strategaeth. Mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod eu cydweithwyr yn cael eu hysbysu, eu hyfforddi a'u cefnogi'n ddigonol i gyflawni eu dyletswyddau gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystyriaeth allweddol. Trwy feithrin diwylliant yn y gweithle sy'n blaenoriaethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae rheolwyr a goruchwylwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni ein hymrwymiad i greu amgylchedd mwy cynhwysol ac amrywiol.

Mae gan ein staff, ein hundebau llafur a'n grwpiau rhwydweithiau staff rôl bwysig wrth wireddu ein hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a meithrin diwylliant yn y gweithle sydd nid yn unig yn gadarnhaol ond sydd hefyd yn gynhwysol ac yn agored. Trwy groesawu amrywiaeth a thrin ein gilydd â pharch ac urddas, mae ein staff yn creu ar y cyd amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u bod yn gallu ffynnu.

# Ein Strategaeth 2024–2029

Mae ein Gwerth Craidd Amrywiaeth a Chynhwysiant yn chwarae rhan ganolog wrth arwain datblygiad ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Crëwyd y strategaeth drwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys rheolwyr, cydweithwyr, aelodau, a phartneriaid undebau llafur. Mae'r dull hwn yn ein caniatáu i weithio gyda'n gilydd i wireddu ein blaenoriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyffredin a chreu fframwaith sy'n galluogi pawb i gyflawni eu potensial llawn, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Mae gweithredu'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedair thema ryngddibynnol, gyda set benodol o egwyddorion yn cynnal pob un ohonynt, â'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal, lleihau rhagfarn a gwahaniaethu, a hybu'r nod cyffredinol o greu gweithle mwy amrywiol a chynhwysol.

## Conglfeini ein strategaeth

**Thema 1 – Ymgorffori cynwysoldeb yn ein diwylliant sefydliadol**

- Arwain mewn modd cynhwysol
- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Hyrwyddo hygyrchedd

**Thema 2 - Denu, recriwtio a chadw pobl dalentog**

- Denu
- Grymuso
- Addysgu

**Thema 3 – Cyflwyno gwasanaethau cynhwysol i'n cymuned**

- Ymgysylltu
- Meithrin ymddiriedaeth a hyder
- Cadw'n ddiogel

**Thema 4 – Datblygu partneriaethau effeithiol**

- Cysylltu
- Cydweithio
- Creu'r effaith fwyaf posibl



## Thema 1: Ymgorffori cynwysoldeb yn ein diwylliant sefydliadol

Er mwyn creu gweithle lle mae cynwysoldeb yn ail natur, mae'n bwysig i bawb yn y sefydliad, o uwch arweinwyr i staff rheng flaen, arwain trwy esiampl a mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn dilyn yr amcanion canlynol:

- Datblygu Arweinyddiaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Integreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'n rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i sicrhau bod gan bob rheolwr y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymgorffori cynwysoldeb yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Ymrwymiad Gweladwy: Annog aelodau'r Awdurdod Tân, uwch arweinwyr, rheolwyr a chydweithwyr i fod yn weladwy iawn yn eu hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac i siarad yn agored am y materion hyn mewn digwyddiadau mewnol ac allanol.
- Deialog Barhaus: Cynnal deialog barhaus ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac archwilio ffyrdd i fynd i'r afael â heriau hanesyddol a datblygol.
- Ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Sicrhau bod y broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i hymgorffori ar draws y sefydliad i ystyried anghenion pob un y mae datblygiadau polisi neu wasanaeth yn effeithio arnynt.
- Hyfforddiant a Datblygu: Hyrwyddo a monitro cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddiant a datblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau bod pob cydweithiwr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol a phersonol.
- Cynnal safiad cadarn yn erbyn gwahaniaethu: Cynnal ein hymrwymiad i frwydro yn erbyn bwlio, rhagfarn, a phob math o wahaniaethu.
- Ymrwymiad Cyflenwyr i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Monitro'n barhaus ymrwymiad ein cyflenwyr i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy gydol y broses gaffael a rheoli contractau.
- Gweithleoedd a Chyfleusterau Cymunedol Cynhwysol: Dylunio ac addasu ein hadeiladu i greu gweithleoedd hygyrch a chynhwysol, yn ogystal â chyfleusterau cymunedol sy'n addas ar gyfer gwasanaeth tân ac achub modern.



## Thema 2: Denu, recriwtio a chadw pobl dalentog

Ein nod yw gweld ein sefydliad yn ddewis gyflogwr yn ein sector, gan ddenu'r dalent orau i rolau diffodd tân a gwasanaethau corfforaethol. Ein gweledigaeth yw gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn dilyn yr amcanion canlynol:

- Mabwysiadu ymagwedd greadigol ac arloesol tuag at weithredu'n gadarnhaol, gan ddileu unrhyw rwystrau yn ein prosesau recriwtio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Monitro data demograffig y gweithlu yn barhaus i nodi tueddiadau sy'n ein helpu i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein hymdrechion recriwtio ac i gadw staff presennol yn ein gweithlu.
- Darparu sgrinio gwybyddol, cymorth wedi'i dargedu ac addasiadau i weithwyr unigol ym mhob cam o gylch oes y gweithiwr, gan gynnwys addasiadau ffisegol a threfniadau gweithio hyblyg.
- Adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn meithrin diwylliant diogel a chynhwysol lle mae gweithwyr yn teimlo'n gyfforddus i ddod â'r 'fersiwn lawn ohonyn nhw eu hunain' i'r gwaith.
- Datblygu rhaglen addysg gynhwysfawr i sicrhau gwell dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac annog yr holl staff a gwirfoddolwyr i gymryd rhan.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy gyfathrebu mewnol, digwyddiadau, ymgyrchoedd a rhwydweithiau staff.
- Annog mentora, mentora o chwith, a hyfforddi i ddatblygu gweithwyr o hunaniaethau lleiafrifol a hyrwyddo dealltwriaeth uwch arweinwyr o faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ehangu ein rhwydweithiau staff a'n hyrwyddwyr cydraddoldeb drwy recriwtio mwy o aelodau ac ehangu'r themâu maent yn eu cwmpasu, gan gynnwys y rhai sy'n uniaethu â sawl nodwedd warchodedig.
- Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) i sicrhau arweinyddiaeth, pobl a thalent amrywiol mewn gwasanaethau tân ac achub.
- Hyrwyddo cynhwysiant ymhlith gweithlu sy'n heneiddio gan ystyried trefniadau gweithio a'n gallu i hyfforddi ac ailhyfforddi staff drwy gydol y cylch oes gwaith.



## Thema 3: Cyflwyno gwasanaethau cynhwysol i'n cymuned

Ein nod yw cyflwyno gwasanaethau rhagorol sy'n diwallu anghenion amrywiol pob person yr ydym yn rhyngweithio â nhw. Byddwn yn ymdrechu i ddeall eu hamgylchiadau unigryw a chyflwyno gwasanaethau sy'n gynhwysol, hygyrch ac wedi'u targedu at y rhai mwyaf anghenus. Bydd ein staff rheng flaen wedi'u hymbaratoi i gyflawni eu dyletswyddau gydag empathi, trugaredd, a pharch, a bydd ein timau gwarchod yn ystyried effaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar eu gwaith.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn dilyn yr amcanion canlynol:

- Ymgysylltu ac ymgynghori â'n cymunedau mewn modd cynhwysol, gan geisio safbwyntiau ac adborth amrywiol ar ein hamcanion, cynigion a chynlluniau.
- Cyfathrebu mewn ffordd sy'n cysylltu â phob cymuned, gan hyrwyddo negeseuon diogelwch, cyfleoedd gyrfa a gwybodaeth hanfodol os bydd argyfwng sifil.
- Cynnal dadansoddiad risg a chydraddoldeb a arweinir gan ddata i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyd-fynd â'n dyletswydd gymdeithasol ac economaidd i wasanaethu pob aelod o'r gymdeithas.
- Ystyried sbardunau allanol megis yr argyfwng costau byw, effaith barhaus pandemig Covid-19 ar ein proffil risg ac ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n gysylltiedig â thân Tŵr Grenfell a'r rhaglen diwygio tân genedlaethol.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad sy'n benodol i adrannau er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu rolau o ddydd i ddydd.
- Annog gwirfoddoli a darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn ein rhwydweithiau staff a mynychu digwyddiadau perthnasol.
- Gweithredu fel hyrwyddwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gweladwy a bod yn esiampl trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau a gwyliau cymunedol, cefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, a chyfrannu at lunio'r agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant genedlaethol.

Drwy'r camau gweithredu hyn, byddwn yn cyflawni ein dyletswydd gymdeithasol ac economaidd i ddarparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch sy'n diwallu anghenion pob aelod o'n cymunedau.



## Thema 4: Datblygu partneriaethau effeithiol

Ein nod yw sefydlu rhwydwaith eang ac effeithiol o bartneriaethau strategol gyda gwahanol randdeiliaid a chymunedau. Bydd y partneriaethau hyn yn ein galluogi i gyrraedd a gwasanaethu grwpiau ar y cyrion, gwella ein gwybodaeth a'n harbenigedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac ymestyn ein hallgymorth. Drwy gydweithio â gwasanaethau tân ac achub a sefydliadau cyhoeddus eraill, ein nod yw rhannu ein profiadau a mabwysiadu arferion gorau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn dilyn yr amcanion canlynol:

- Meithrin cysylltiadau â grwpiau eirioli cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant arbenigol sy'n cefnogi gweithredu ein Strategaeth, ac a fydd yn ein helpu i nodi poblogaethau newydd a datblygol sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl.
- Parhau i ymgysylltu â meincnodi allanol a sefydliadau perthnasol i gynnal ein safonau arweinyddiaeth ac arfer gorau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Cynnal digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n darparu cyfleoedd dysgu i'n staff, gwirfoddolwyr a phobl ifanc, a meithrin partneriaethau â sefydliadau sy'n rhannu ein hymrwymiad i hyrwyddo gweithleoedd a gwasanaethau cynhwysol.
- Bod yn aelodau gweithredol o rwydweithiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC), a chydweithio â'n partneriaid i gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u targedu a hyrwyddo'r gwasanaeth tân ac achub fel cyflogwr y mae pobl yn dymuno gweithio iddo.
- Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod ein strategaethau a'n mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystyried effaith ffactorau economaidd-gymdeithasol ar ein cymunedau a'n sefydliadau partner.
- Chwarae rhan weithredol yng ngrŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Tân ac Achub Cymru Gyfan a gweithio ar y cyd â'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ledled y DU i hyrwyddo effeithlonrwydd a rhannu arfer gorau.
- Archwilio creu rhwydweithiau staff GTA Cymru Gyfan posibl ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol (e.e. Rhwydwaith LHDTC+ Balchder Tân).



# Gweithredu Strategaeth 2024-2029

Mae'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y cyfnod 2024-2029 yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sefydliad. Er mwyn sicrhau gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus, mae nifer o fesurau wedi'u rhoi ar waith.

## Cynllun Gweithredu Blynyddol

Bydd gweithrediad y strategaeth yn cael ei arwain gan gynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant blynyddol manwl, y bydd ei berfformiad yn cael ei reoli gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cyfarfod bob chwarter. Cadeirydd y Pwyllgor fydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fel y swyddog atebol sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth.

## Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Bydd adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei gynhyrchu bob chwe mis gan y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'i gyflwyno i Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Bydd cynhyrchu adroddiad diweddaru chwe mis ac adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau cydraddoldeb perfformiad y gwasanaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y dyfodol.

## Cynllunio Adrannol

Bydd cynlluniau adrannol blynyddol yn cael eu hategu gan Asesiadau cynhwysfawr o'r effaith ar gydraddoldeb. Bydd ystyried ein hamcanion a'n canfyddiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddatblygu ein cynlluniau yn sicrhau bod yr effaith bosibl ar grwpiau a phobl heb gynrychiolaeth ddigonol a phobl warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael sylw. Bydd cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol hefyd yn cael eu dal drwy'r asesiadau.

## Arfarniad Blynyddol

Bydd pob aelod o staff yn cael arfarniad blynyddol, a fydd yn cynnwys asesiad o'u perfformiad yn erbyn eu hamcanion, eu llesiant, eu hymrwymiad i'r Gwerthoedd Craidd a chreu diwylliant cadarnhaol yn y gweithle.

## Ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Arferion a Gweithdrefnau

Trwy'r camau gweithredu hyn, mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ymgorffori ei egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei arferion a'i weithdrefnau, gan sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rheng flaen popeth a wna.

## Cyfeirio at y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Yn ogystal â hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae'r sefydliad hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod ei arferion a'i bolisïau yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol. Bydd yr ystyriaeth hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn ein darpariaeth cyflwyno gwasanaethau.

# Rhwydweithiau Staff

Mae ein rhwydweithiau staff yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo ein hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chreu diwylliant cynhwysol yn y gweithle. Mae'r rhwydweithiau hyn yn gweithredu fel fforymau i weithwyr rannu eu profiadau, eu safbwyntiau, a'u syniadau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chael mynediad at gyfleoedd addysgol sy'n helpu i feithrin amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.

Er mwyn cefnogi hyn, ein nod yw:

- Meithrin diwylliant o gynwysoldeb drwy annog pob aelod o staff i gymryd rhan ac elwa o'n rhwydweithiau staff, waeth beth yw eu nodweddion gwarchodedig, hunaniaeth unigol, statws neu gefndir.
- Darparu cyllideb flynyddol i rwydweithiau staff gyfarfod, trefnu digwyddiadau a seminarau, datblygu gweithgareddau a mynychu cyfleoedd hyfforddi sy'n cynorthwyo datblygiad personol, gan alluogi aelodau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a meithrin cydweithredu ymhlith rhwydweithiau eraill a'r gweithlu ehangach.
- Defnyddio rhwydweithiau staff fel llwyfan i wrando ar brofiadau a safbwyntiau aelodau o staff, yn enwedig y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac integreiddio eu hadborth i'n mentrau a'n rhaglenni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Annog a chefnogi creu rhwydweithiau staff newydd sy'n cynrychioli cefndiroedd a phrofiadau amrywiol ein gweithwyr, ac sy'n hyrwyddo cyfnewid arferion gorau a syniadau ymhlith rhwydweithiau staff.
- Darparu cyfleoedd i rwydweithiau staff bartneru ag adrannau, rhanddeiliaid a sefydliadau cymunedol eraill i hyrwyddo ein nodau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chreu effaith gymdeithasol gadarnhaol.
- I gloi, mae ein rhwydweithiau staff yn rhan annatod o'n strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod pob gweithiwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u clywed, a bod ein diwylliant yn y gweithle yn hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bawb.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy e-bost enquiries@northwalesfire.gov.wales neu ffoniwch 01745 535250

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r papur hwn yn nodi rhwymedigaethau Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ar gyfer Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ogystal â'r ystyriaethau ymarferol o ran eu gweithredu.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Siarter Teithio Iach yn fenter a oruchwylir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i helpu cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â strategaethau Llywodraeth Cymru ynghylch trafnidiaeth, datgarboneiddio ac iechyd y cyhoedd. Mae'r Siarter yn cynnwys 15 o ymrwymiadau, y cyflawnir 10 ohonynt gan bolisïau drafft presennol neu bolisïau mabwysiedig. Mae'r mesurau a gynigir i fodloni'r pum ymrwymiad sy'n weddill o'r Siarter wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL

3 Cymeradwywyd cadarnhad y Siarter gan y Panel Gweithredol ar 18 Rhagfyr 2023, ar y telerau a nodir isod.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) cymeradwyo cadarnhad Siarter Teithio Iach Gogledd Cymr yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol, o dan y telerau canlynol:

- Bod y Prif Swyddog Tân (PST) yn cael ei benodi i lofnodi'r Siarter ar ran yr Awdurdod;
- Bod Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn cael ei benodi'n Bwynt Cyswllt Sengl (SPoC) ar gyfer y cynllun; a
- Bod PSTC Justin Evans yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar gydymffurfiaeth.

## CEFNDIR

5 Yn 2021, lansiwyd strategaeth drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, gan Lywodraeth Cymru. Nod y strategaeth yw newid y ffordd y mae pobl yn teithio, a'u cael i gerdded, i feicio ac i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na theithio mewn ceir preifat. Mae'r strategaeth wedi cael rhagor o gefnogaeth gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

6 Gan fod teithio llesol yn cynnig manteision sylweddol i iechyd y cyhoedd, mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi arwain y gwaith o ddatblygu Siarter Teithio Iach ar gyfer Gogledd Cymru (wedi'i hatodi).

7 Datblygwyd y Siarter mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys y chwe Awdurdod Lleol, Sustrans, Cyfoeth Naturiol Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r Siarter yn awgrymu ystod o feysydd lle gall sefydliadau weithredu, gan gynnwys arweinyddiaeth a chyfathrebu, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, gweithio ystwyth a cherbydau allyriadau isel.

8 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fydd yn goruchwylio llofnodwyr sector gyhoeddus y rhanbarth.

9 Mae'r 15 ymrwymiad a nodir yn y Siarter yn gweddu'n dda â'n Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, yn enwedig o ran yr ymrwymiad i annog newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn teithio.

10 Ar gyfer yr ymrwymiadau hynny na cheir polisi ar eu cyfer ar hyn o bryd, mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi cytuno ar ddulliau ymarferol i gydymffurfio ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

## GWYBODAETH

11 Mae'r ymrwymiadau yn y Siarter sydd eisoes yn cael eu bodloni gan ein polisïau presennol neu rai y bwriadwn eu cyflwyno wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod. Mae Tabl 2 (drosodd) yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiadau hynny nad ydynt eisoes yn cael eu bodloni, neu nad oes bwriad ar hyn o bryd i'w bodloni.

**Tabl 1: Ymrwymiadau'r Siarter sy'n cael eu bodloni gan bolisïau presennol**

| Ymrwymiad Siarter | Polisi Presennol |
|---|---|
| Cytuno ar negeseuon rheolaidd a chyson er mwyn cyfathrebu â'r cyhoedd, â staff ac ag ymwelwyr ynghylch teithio'n iach a lleihau faint o deithiau diangen a wneir, a defnyddio'r negeseuon hynny, gan gynnwys targedu pobl o wahanol gefndiroedd, rhywedd, oedran, galluoedd ac anableddau | Strategaeth Amgylcheddol |
| Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a manteision teithio'n iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Adolygu ein polisïau costau teithio a'n prosesau cynllunio teithiau ar gyfer staff er mwyn iddynt gyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn gyfrifol ac yn ystyriol (e.e. gyrru o fewn terfynau cyflymder a pheidio â pharcio mewn lonydd beicio), er mwyn galluogi cerdded a beicio diogel | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Gweld a ellir rhoi gostyngiadau i staff ar wasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru ac â darparwyr trafnidiaeth lleol | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Cynnig y Cynllun Beicio i'r Gwaith i'r holl staff, gan gynnwys e-feiciau | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Asesu a darparu lle hygyrch i storio beiciau yn ddiogel, yn ogystal â chawodydd a loceri ym mhob safle addas | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Darparu opsiynau gweithio hyblyg i staff lle bynnag y bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu mewn hybiau, a hyrwyddo diwylliant o weithio ystwyth ar draws safleoedd sector cyhoeddus | Strategaeth Amgylcheddol |
| Adolygu'r angen i gael seilwaith sy'n gwefru cerbydau trydan (EV) ac e-feiciau yn ein safleoedd nawr ac yn y dyfodol | Strategaeth Amgylcheddol |
| Adolygu ein trefniadau fflyd a chaffael (pan fo'n berthnasol) er mwyn cyflwyno cerbydau ag allyriadau isel iawn, gan gynnwys beiciau e-gargo ac e-feiciau lle bo hynny'n briodol | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |

**Tabl 2: Ymrwymiadau'r Siarter nad ydynt yn cael eu bodloni gan bolisïau presennol nac arfaethedig**

| Ymrwymiad Siarter | Gweithred arfaethedig |
|---|---|
| Sefydlu rhwydwaith o bobl i fynd ati'n rhagweithiol i annog teithio cynaliadwy, gan gynnwys staff uwch, rheolwyr a, lle bo'n berthnasol, Aelodau etholedig, i hyrwyddo ac i fodelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy yn rheolaidd, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy | Bydd y weithred hon yn cael ei chyflawni gan Weithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd |
| Cydweithio â phartneriaid yn ogystal â darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol o ran teithio iach a chynaliadwy, gan gynnwys seilwaith a gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol | Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i weithio gyda chyfoedion drwy Grŵp Datgarboneiddio Gogledd Cymru |
| Sicrhau ei bod yn hawdd gweld sut i gyrraedd ein prif safle(oedd) ar droed, ar feic ac ar gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, trwy gyfrannu at fap rhyngweithiol er enghraifft | Diweddaru tudalennau gorsafoedd ar wefannau cyhoeddus er mwyn cynnwys yr wybodaeth hon |
| Gwella'r gallu i gael gafael ar feiciau yn y gwaith lle bo hynny'n briodol, e.e. cronfa feiciau, beiciau i'w llogi a beiciau cargo | I'w asesu fesul achos lle bo hynny'n briodol |
| Ystyried a hyrwyddo sesiynau hyfforddiant beicio a chynnal a chadw beiciau lle bo hynny'n briodol | Fideos a deunyddiau addysgol i'w cyhoeddi ar fewnrwyd y gwasanaeth (Hwb Tân) |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiadau uniongyrchol i gyflawni amcanion gwella a llesiant tymor hir yr Awdurdod |
| **Cyllideb** | Dim goblygiadau cyllidebol hysbys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth cynllunio gwelliant, llesiant a'r amgylchedd. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddys. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith |

**Atodiad a**

Teithio Llesol Cymru
Healthy Travel Wales

## Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru

| Cyfathrebu ac arweinyddiaeth |
|---|
| Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy rhagweithiol, gan gynnwys uwch staff, rheolwyr a lle bo'n berthnasol, aelodau etholedig, sy'n hyrwyddo ac yn modelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy fel mater o drefn, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy |
| Cytuno a defnyddio negeseuon cyfathrebu rheolaidd a chyson gyda'r cyhoedd, ymwelwyr a staff ar deithio llesol a lleihau teithio diangen, gan gynnwys targedu pobl o wahanol gefndiroedd, rhyw, oedran, galluoedd ac anableddau |
| Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a buddion teithio iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau |
| Adolygu ein polisïau treuliau teithio a'n prosesau cynllunio teithiau ar gyfer staff, i gyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy |
| Cydweithio â phartneriaid a darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol ar deithio llesol a chynaliadwy, gan gynnwys seilwaith a gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol |
| Staff cymorth sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn gyfrifol ac yn ddefnyddwyr ffyrdd ystyriol (e.e. gyrru o fewn terfynau cyflymder a pheidio â pharcio mewn lonydd beicio), er mwyn galluogi cerdded a beicio diogel |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** |
| Archwilio gostyngiadau i staff ar wasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a chyda darparwyr trafnidiaeth leol |
| **Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus** |
| Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd ar sut i gyrraedd ein prif safle(oedd) drwy gysylltiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft drwy gyfrannu at fap rhyngweithiol |
| **Beicio a cherdded** |
| Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'r holl staff, gan gynnwys e-feiciau |
| Asesu a darparu storfa feiciau, cawodydd a loceri diogel a hygyrch ym mhob safle addas |
| Gwella mynediad i feiciau yn y gwaith lle bo'n briodol, e.e. beiciau cronfa, beiciau llog a beiciau cargo |
| Archwilio a hyrwyddo hyfforddiant beicio a sesiynau cynnal a chadw lle bo hynny'n briodol |
| **Gweithio ystwyth** |
| Darparu opsiynau gweithio hyblyg i staff lle bynnag y bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu hwb, a hyrwyddo diwylliant o weithio ystwyth ar draws safleoedd y sector cyhoeddus |
| **Cerbydau allyriadau isel iawn (batri, trydan neu hydrogen)** |
| Adolygu'r angen am seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV) ac e-feiciau ar ein safleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol |
| Adolygu ein fflyd a'n trefniadau caffael (lle bo'n berthnasol) ar gyfer cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn, gan gynnwys e-gargo ac e-feiciau lle bo'n briodol |

*This document is available in English.*

**Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am ragolygon gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24, fel yr oedd ar 29 Chwefror 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y gofyniad cyllideb net o £44.394m ei gymeradwyo ar 16 Ionawr 2023, pan gymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) hefyd fesurau anghylchol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol, a oedd yn cynnwys gohirio gwariant yn ogystal â defnyddio cronfeydd wrth gefn.

3 Rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol ar gyfer 2023/24 yn £44.664m, gan gynnwys costau sy’n gysylltiedig â phrosiectau amrywiol, setliadau cyflog cenedlaethol sydd uwchlaw’r ddarpariaeth gyllidebol, a phwysau cyffredinol oherwydd chwyddiant. Bydd defnyddio’r darpariaethau, y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a’r gronfa gyffredinol yn lliniaru’r costau ychwanegol.

4 Roedd y gyllideb cyfalaf o £6.532m ar gyfer 2023/24 yn cynnwys £3.00m i brynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, a disgwylir bellach i hyn gael ei gwblhau yn ystod chwarter olaf 2024/25. Mae'r rhaglen gyfalaf dan bwysau o ran costau ac felly mae rhai cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu er mwyn aros o fewn y cyllid sydd ar gael. Rhagwelir y bydd gwariant yn £2.185m ac y bydd angen treiglo £3.951m o gyllid ymlaen.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i’r Aelodau:

(i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel y manylir yn eu cylch yn yr adroddiad;
(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant ac â materion yn y gadwyn gyflenwi; a
(iii) chymeradwyo’r defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai wedi’u clustnodi.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Cafodd y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £44.394 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i'r llif cyllid o £1.08m yn gymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân. Cyn hyn, roedd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdod ond ers 1 Ebrill 2023 mae'n cael ei ariannu drwy'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

8 Wrth bennu'r gyllideb, er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2023/24 fe wnaeth yr Aelodau hefyd gymeradwyo ystod o fesurau anghylchol sydd wedi cael effaith ar gyflwyno gwasanaethau ac ar gapasiti corfforaethol. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio gwariant a defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai a glustnodwyd; camau a oedd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â cholli £0.4m o incwm grant gan Lywodraeth Cymru oherwydd contract Airwave, pwysau hysbys eraill, yn ogystal ag ansicrwydd yn ymwneud â thrafodaethau cyflog cenedlaethol.

9 Aseswyd bod gofyniad cyllideb gyfalaf o £6.532m ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Ers hynny, mae rhaglen 2022/23 wedi llithro gan arwain at gynlluniau sydd yn werth £0.625m yn parhau i 2023/24.

10 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro ddrafft o ran gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

## GWYBODAETH

## Y GYLLIDEB REFENIW

11 Mae costau staff yn cynrychioli 72% o'r gwariant gros. Y gyllideb staffio ar gyfer 2023/24 yw £31.872m ac mae'n cynnwys mesurau a gyflwynwyd bryd hynny er mwyn cadw gwariant o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. Wrth bennu'r gyllideb, fodd bynnag, nodwyd bod y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer yr holl staff yn dal i gael eu cynnal; a bod hyn yn berthnasol i 2022/23 yn ogystal â 2023/24 ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd (staff gweithredol).

12 Roedd y broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth, o anfodd, y byddai dyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 i'r holl staff yn 4%. Y cynnig cyflog terfynol y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer staff llywodraeth leol oedd codiad o £1,925 ar draws pob gradd, a oedd yn cyfateb i oddeutu 6.6%.

13 Cafodd dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ei setlo ym mis Chwefror 2023. Cadarnhaodd hyn fod ffigwr o 7% wedi'i dderbyn ar gyfer swyddi diffoddwyr tân a diffoddwyr tân yr ystafell reoli o fis Gorffennaf 2022, gyda 5% arall o 1 Gorffennaf 2023 ymlaen. Roedd y setliadau hyn yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio o 5% a 4% a ddefnyddiwyd wrth bennu'r gyllideb.

14 Roedd y gyllideb sydd ddim yn ymwneud â chyflogau yn adlewyrchu'r pwysau anochel a hysbys o ran costau TGCh, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a chostau tanwydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd pellach yn parhau oherwydd pwysau chwyddiant cyffredinol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi sy'n arwain at wariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelwyd.

15 Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, mae incwm gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

16 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf.

**ALLDRO REFENIW**

17 Mae'r adroddiad yn rhagweld gorwariant o £0.270m, sy'n cyfateb i 0.61% o'r gyllideb. Mae'r dadansoddiad i'w weld isod.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogeion | 31.872 | 31.183 | (0.689) | -2.16% |
| Eiddo | 3.516 | 3.886 | 0.370 | 10.51% |
| Cludiant | 1.271 | 1.627 | 0.357 | 28.08% |
| Cyflenwadau | 5.419 | 6.560 | 1.141 | 21.05% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.305 | 0.335 | 0.029 | 9.63% |
| Ariannu Cyfalaf a Thaliadau | 3.129 | 2.194 | (0.935) | -29.88% |
| Incwm | (1.118) | (1.121) | (0.003) | 0.26% |
| **Alldro a Ragolygir** | **44.394** | **44.664** | **0.270** | **0.61%** |

## COSTAU CYFLOGEION

18 Mae costau cyflogeion yn rhan sylweddol o'r gyllideb (72%) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau i gyflogeion, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Wrth gymeradwyo'r gyllideb yn derfynol ym mis Ionawr 2023, cymeradwywyd ystod o fesurau gan yr Aelodau i gyfyngu ar wariant staff. Nid yw'r rhain yn gylchol eu natur, ac maent yn cynnwys mesurau fel peidio â llenwi swyddi gwag o fewn y strwythur a gymeradwywyd, a chyfyngu ar y cynnydd a ragwelwyd o ran recriwtio i orsafoedd dyletswydd ar alwad.

19 Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith ym mis Mehefin 2023 ac mae'r swyddi hyn yn parhau i fod yn hanfodol i gyflawni'r amcanion corfforaethol. Mae arbedion cost y swyddi gwag wedi lliniaru'r costau uwch sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a goramser.

20 Mae camau yn parhau i gael eu cymryd er mwyn cynyddu nifer y diffoddwyr tân dyletswydd ar alwad, a hynny er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd, ond gan gofio cyfyngiadau'r gyllideb. Yn ystod hanner cyntaf 2024/25 bydd proses yn cael ei chynnal er mwyn recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn, a hynny i gymryd lle staff sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn a'r rhai sydd am ymddeol yn 2024/25.

21 Hefyd, parhaodd y gwaith o benodi i swyddi gwag arbenigol a chynnal capasiti yr ochr weithredol. Er y gwnaethpwyd arbedion yn 2023/24, trwy gadw swyddi'n wag a phenodi i swyddi yn hwyrach yn y flwyddyn, defnyddiwyd yr arian i gynnal argaeledd ac i fynd i'r afael â salwch ar yr ochr weithredol.

22 Fel sy'n wir gyda chyrff llywodraeth leol eraill, derbyniwyd ad-daliad gan Gronfa Bensiwn Clwyd mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr, a hynny yn dilyn y prisiad actiwaraidd. Roedd hyn yn £0.503m.

23 Cyfanswm y tanwariant net o ran costau cyflogeion yw £0.689m, ac mae dadansoddiad pellach isod:

| **Costau Cyflogeion** | **£m** |
|---|---|
| Dyfarniadau cyflog uwchlaw'r gyllideb | 0.730 |
| Arbedion oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn | (1.295) |
| Oriau ychwanegol i gwmpasu dyletswyddau'r ochr weithredol | 0.555 |
| Costau eraill yn ymwneud â chyflogeion | (0.158) |
| Rhagamcan costau pensiwn | (0.521) |
| **Tanwariant a ragwelir** | **(0.689)** |

## COSTAU NAD YDYNT AR GYFLOGAU

24 Mae'r gyllideb ar gyfer costau nad ydynt ar gyflogau yn wynebu pwysau sylweddol. Mae’r rhain yn cynnwys costau tanwydd, syn parhau i fod yn ansefydlog oherwydd materion pris a chyflenwad. Mae argaeledd a chostau nwyddau eraill yn peri pryder hefyd, fel cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a darnau ar gyfer y fflyd, yn enwedig o ystyried cymhlethdod y cadwyni cyflenwi hyn ynghyd â’r ansicrwydd byd-eang.

25 Ers yr adroddiad diwethaf mae sawl adran, gan gynnwys Cyfleusterau a Gweithrediadau, wedi adrodd bod oedi o ran nwyddau a gwasanaethau y disgwylid eu cwblhau neu eu cyflenwi yn 2023/24. O ganlyniad, mae’r gorwariant ar gyfer eleni wedi lleihau, ond bydd yn rhoi pwysau ar gyllideb 2024/25.

26 Mae gwariant nad ydyw ar gyflogau cael ei adolygu’n barhaus gan ddeiliaid y gyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod y blaenamcanion yn parhau i fod yn rhesymol ac er mwyn rheoli costau na ellir eu hosgoi.

### Eiddo

27 Mae costau eiddo yn rhagweld gorwariant o £0.370, sy’n ostyngiad o'r £0.576m a ragwelwyd yn yr adroddiad diwethaf. Mae’r gorwariant yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau gwasanaethu a chynnal a chadw, yn ogystal â chwblhau gwaith oedd fod i gael ei wneud yn 2022/23. Bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu defnyddio i wrthbwyso costau gwaith 2022/23.

28 Mae ffigurau’r gyllideb yn cynnwys y costau rhagarweiniol y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod blaenorol sy’n gysylltiedig ag arolygon safle ar gyfer datblygu achos busnes a’r pryniant tir arfaethedig ar gyfer canolfan hyfforddi newydd (£0.25m).

29 Mae ansefydlogrwydd y farchnad a’r cynnydd yng nghostau nwy a thrydan yn her ariannol fawr i'r Awdurdod. Mae’r costau’n cael eu monitro fel rhan o’r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar gostau trydan a’r defnydd ar hyn o bryd, mae'r blaenamcan wedi gostwng £0.08m.

30 Mae'r Awdurdod wedi elwa o ostyngiad i ardrethi annomestig cenedlaethol yn dilyn llwyddiant apelau ardrethu. Y tanwariant yn y maes hwn yw £0.71m.

### Cludiant

31 Mae’r gyllideb cludiant yn rhagweld amrywiad o £0.357m, a hynny yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd (olew, diesel a phetrol). Mae’r cynnydd mewn costau prydles, argaeledd a chostau cydrannau cerbydau, a chostau atgyweirio cerbydau hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb hon.

## Cyflenwadau

32 Y gyllideb cyflenwadau net yw £5.419m a rhagwelir gorwariant o £1.141m, sy'n cynnwys mentrau yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Mae'r maes gwariant hwn yn cynnwys meysydd sy'n hanfodol i'r busnes, fel prynu offer a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer yr ochr weithredol, trwyddedau TGCh hanfodol, y contract Firelink ac yswiriant.

33 Mae pwysau chwyddiant sylweddol yn cael eu hwynebu mewn nifer o feysydd sy'n hanfodol i'r busnes, ac mae camau yn cael eu cymryd i liniaru ac i gyfyngu ar y rhain, lle bo hynny'n bosibl.

34 Mae'r elfen gwariant fwyaf yn ymwneud â'r contract Firelink cenedlaethol sydd â chost flynyddol o £0.84m. Dyma'r contract gwasanaeth brys sy'n galluogi i bartneriaid yn y gwasanaethau brys gyfathrebu, rhyngweithio, ac ymateb i ddigwyddiadau. Bydd hwn yn cael ei ddisodli gan Raglen Gyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) a fydd yn gwella cyfathrebu llais a data ar draws y gwasanaethau brys. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer ESMCP yn hysbys, a'r contract Firelink yw'r unig ddewis arall. Cyn hyn, derbyniwyd cefnogaeth o £0.42m gan Lywodraeth Cymru, ond daeth y gefnogaeth yma i ben ar 1 Ebrill 2023 ac mae'n parhau i fod yn bwysau cost parhaus.

35 Mae'r costau TGCh yn cynnwys pwysau fel cynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â llogi llinellau ffôn. Mewn ymateb i'r her ariannol hon, mae rheolwyr TGCh wedi lliniaru costau yn strategol trwy gael gwared ar systemau hen ffasiwn a chroesawu datrysiadau amgen modern a chost-effeithiol sy'n cyd-fynd â datblygiadau technolegol cyfredol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau effeithlonrwydd ariannol ac mae hefyd yn rhoi'r Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i elwa o'r arbedion a'r gallu ymarferol gwell y mae datrysiadau arloesol yn eu cynnig. Mae costau TGCh hefyd wedi cynyddu oherwydd yr angen i brynu caledwedd ychwanegol, gan gynnwys teclynnau galw a gliniaduron newydd yn lle rhai sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

36 Bu gwariant sylweddol hefyd wrth brynu cit tân ychwanegol, oherwydd yr adolygiad halogyddion sy'n parhau, ac mae wedi arwain at orwariant a ragwelir o £0.474m. Mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal ledled Cymru gyda chyflenwr y cit tân, a hynny oherwydd yr oedi o ran cyflenwi. Mae'r cyflenwr bellach wedi cydnabod na fydd y cit tân yn cael ei gyflenwi tan 2024/25, felly bydd angen clustnodi'r cyllid mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ddiwedd y flwyddyn.

37 Mae'r sefyllfa alldro a ragwelir yn cynnwys costau ar gyfer prynu offer gweithredol hanfodol a chit tân newydd yn lle hen rai, meddalwedd AD wedi'i ddiweddaru a gwaith prosiect mewn perthynas â'r adolygiadau amrywiol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled y Gwasanaeth, gan gynnwys yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

## Taliadau Trydydd Parti

38 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Gâr a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r cytundebau yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau swyddogion monitro, gweinyddu pensiynau, a chyfleusterau.

39 Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gorwariant o £0.0029m o ran y gwariant hwn. Mae hyn oherwydd y gwaith ychwanegol o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân.

## Ariannu Cyfalaf

40 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ac mae'n cynnwys y ddarpariaeth isafswm refeniw a chostau llog ar fenthyca.

41 Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn cynrychioli'r isafswm y mae'n rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf, a fydd wedi'i ariannu yn gyntaf gan fenthyciadau. Mae'n rhan o arferion cyfrifyddu pob Awdurdod, a'i nod yw sicrhau y gall yr Awdurdod dalu'r dyledion sydd ganddo yn sgil prynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

42 Mae rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benderfynu ar swm MRP ym mhob blwyddyn ariannol, un y mae'n ystyried ei fod yn ddarbodus gan gyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf sydd wedi'i gyfrifo (CFR). Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cynghorwyr Trysorlys, sef Arlingclose, gwnaed gwaith i adolygu'r polisi MRP a'r cyfrifiad MRP. Mae hyn wedi arwain at ostwng yr MRP i £1.902m ar gyfer 2023/24, o'i gymharu â chyllideb o £1.999m.

43 Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys y costau llog sy'n gysylltiedig â benthyciadau'r Awdurdod. Oherwydd anwadalrwydd y sefyllfa economaidd, mae cost benthyca wedi parhau i gynyddu. Fodd bynnag, ni fu angen benthyca pellach gan y fod gwariant cyfalaf hyd yma wedi bod yn llawer arafach na'r disgwyl, gan olygu y rhagwelir arbediad cyllideb o £0.428m.

44 Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn weithredol wrth fuddsoddi arian dros ben yn y tymor byr. Mae'r cyfraddau llog wedi parhau i godi yn ystod y flwyddyn, a buddsoddwyd adneuon er mwyn cael yr enillion mwyaf, yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae'r sefyllfa arian parod yn cael ei hadolygu bob dydd ac mae unrhyw arian nad yw wedi'i ddefnyddio yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon cadw amrywiol, er mwyn ennill llog. Hyd yn hyn derbyniwyd £0.405m mewn llog.

45 Oherwydd y gwaith parhaus o reoli'r gyllideb hon yn ofalus, gwnaed £0.935m o arbedion i gyd.

**INCWM**

46 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig o ffioedd a thaliadau, a grantiau.

47 Mae ffioedd a thaliadau yn ymwneud yn bennaf â'r ad-daliadau ar gyfer adeiladau a rennir â chyrff eraill.

48 Bu cynnydd mewn incwm arall o ganlyniad i fwy o ailgodi tâl ar gyrff eraill.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) |
|---|---|---|---|
| Grantiau | 0.854 | 0.854 | 0.000 |
| Ffioedd a thaliadau | 0.264 | 0.267 | 0.003 |
| **Cyfanswm** | **1.118** | **1.121** | **0.003** |

**Cyllid Grant**

49 Cyfanswm dyraniadau cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yw £0.854m, a chaiff ei ddadansoddi isod. Caiff pob grant ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn nodi unrhyw amrywiannau ac i'n galluogi i gymryd camau adferol. Does dim amrywiadau'n cael eu rhagweld.

| | Dyraniad (£m) |
|---|---|
| Lleihau Tanau Bwriadol | 0.169 |
| Offer Diogelwch yn y Cartref | 0.240 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 0.137 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 0.308 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **0.854** |

**RHAGLEN GYFALAF**

50 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £3.532m ym mis Ionawr 2023. Yn ogystal, roedd dyraniad o £3.00m ar gyfer prynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

51 Yn unol â'r adroddiad alldro terfynol a gyflwynwyd yng nghyfarfod Gorffennaf 2023, cytunwyd ar y gofyniad am gyllid treigl o £0.625m ar gyfer cynlluniau na chwblhawyd yn 2022/23.

52 Oherwydd oedi parhaus, mae'r gwariant cyfalaf hyd yma yn £2.075m a'r blaenamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw £2.185m.

53 Fel sy'n wir gyda'r gyllideb refeniw, mae'r rhaglen gyfalaf yn wynebu pwysau o ran costau, gyda chostau cynyddol mewn perthynas â phrynu cerbydau a gwaith adeiladu. Mae hyn yn cael ei reoli drwy flaenoriaethu cyflawni prosiectau hanfodol.

54 Mae angen treiglo £3.951m o gyllid ymlaen, fel y manylir isod, a hynny oherwydd oedi wrth gwblhau gwaith adeiladu a phrynu tir. Mae pum peiriant tân wedi'u harchebu, ond disgwylir i'r rhandaliadau ymestyn i 2024/25 oherwydd oedi o ran argaeledd slotiau adeiladu gyda'r cyflenwr.

55 Mae manylion y cynlluniau i'w gweld isod:

| **Cynllun** | **Dyraniad Gwreiddiol £m** | **Dyraniad Diwygiedig £m** | **Rhagolwg £m** | **Arian Treigl £m** |
|---|---|---|---|---|
| **2023/2024** | | | | |
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 1.430 | 0.475 | 0.475 | 0.960 |
| Faniau amlbwrpas | 0.189 | 0.189 | 0.269 | |
| Peilot Fan Trydan | - | - | 0.107 | |
| Unedau Lles | 0.150 | 0.150 | 0.150 | |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | 0.600 | 0.600 | - | |
| Man Waith Adeiladu | 0.483 | 0.100 | 0.100 | 0.100 |
| Tyrau Hyfforddi | 0.250 | 0.250 | - | |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 0.100 | 0.126 | - | 0.106 |
| Drysau bae peiriannau | 0.180 | 0.180 | 0.180 | |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 0.150 | 0.150 | - | 0.150 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | - | 0.365 | 0.256 | |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 3.000 | 3.000 | - | 2.635 |
| Heb ei ddyrannu | - | 0.947 | - | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **6.532** | **6.532** | **1.537** | **3.951** |
| **Arian Treigl 2022/23** | | | | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.307 | 0.307 | 0.328 | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 0.160 | 0.160 | 0.162 | |
| Adeiladau - Man Waith | 0.158 | 0.158 | 0.158 | |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | **0.625** | **0.625** | **0.648** | **-** |
| **Cyfanswm** | **7.157** | **7.157** | **2.185** | **3.951** |

## BENTHYCA

56 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyciadau allanol, ond yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn 'fenthyca mewnol'.

57 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyciad cyfalaf sydd ei angen, a gyfrifwyd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gan fenthyciadau allanol, gan fod arian parod ar gyfer cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian parod yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio dros dro er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ac i gynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, bydd rhaid newid y benthyca mewnol yn fenthyca allanol.

58 Ni fu angen benthyca allanol yn ystod 2023/24.

## DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI

59 Nod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi yng ngweithgareddau'r dyfodol ac i fod yn rhwyd ddiogelwch rhag heriau ariannol tymor byr o ganlyniad i weithrediadau neu bwysau annisgwyl.

60 Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sydd werth £6.22m, cyllid a gasglwyd dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithro yn dilyn y pandemig o ran recriwtio a chyflawni prosiectau.

61 Yn 2022/23 neilltuwyd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer ariannu costau a oedd i fod i gael eu hysgwyddo yn 2022/23, ond a ohiriwyd oherwydd problemau â'r gadwyn gyflenwi. Hefyd, mae cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u sefydlu er mwyn ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system, a gwelliannau i'r gwasanaeth.

62 Mae'r alldro dros dro yn tybio y bydd dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn er mwyn gwrthbwyso'r gorwariant refeniw o £0.270m a ragwelir. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei adolygu fel rhan o broses monitro'r gyllideb.

**DANGOSYDDION DARBODUS – CH3 2023/24**

63 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyciadau trwy gyfeirio at y dangosyddion canlynol. Bellach mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA bod y rhain yn cael eu hadrodd bob chwarter. Cyfrifir y dangosyddion yn seiliedig ar yr wybodaeth yn Strategaeth Gyfalaf 2023/24 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023.

**Gwariant Cyfalaf**

64 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

| | **2022/23 gwirioneddol £m** | **blaenamcan 2023/24 £m** | **Cyllideb 2024/25 £m** | **Cyllideb 2025/26 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Prosiectau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 3.366 | 2.185 | 5.834 | 5.658 |

65 Ceir manylion pellach am brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol hyd yn hyn o fewn adran Rhaglen Gyfalaf yr adroddiad hwn, uchod.

**Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

66 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gydag MRP a derbynion cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyledion.

| | **31.03.23 gwirioneddol £m** | **blaenamcan 2023/24* £m** | **blaenamcan 2024/25* £m** | **blaenamcan 2025/26* £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 28.877 | 32.158 | 34.407 | 36.749 |

*Mae'r tabl uchod yn cynnwys costau'r ganolfan hyfforddi arfaethedig.

**Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

67 Mae canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

| | 31.03.23 gwirioneddol £m | 31.12.23 gwirioneddol £m | blaenamcan 2023/24* £m | 2024/25* Cyllideb £m | Cyllideb 2025/26* £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid) | 26.650 | 21.620 | 18.620 | 25.960 | 29.683 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 32.158 | 32.158 | 34.407 | 36.749 |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

68 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn Derfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, mae "ffin weithredol" is hefyd yn cael ei gosod fel lefel rhybudd pe bai'r ddyled yn nesáu at y terfyn.

| | Uchafswm dyled Ch2 2023/24 £m | Dyled ar 31.12.23 £m | Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m | Ffin Weithredol 2023/24 £m | Wedi cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 26.650 | 21.620 | 30.999 | 28.990 | Ydy |

69 Gan fod y ffin weithredol yn arf rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau mewn llif arian, ac nid yw hyn yn cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfio. Fodd bynnag, arhosodd benthyciadau 2023/24 o fewn y ffin weithredol.

**Cyfran Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net**

70 Er na chaiff gwariant cyfalaf ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac MRP yn cael ei godi ar refeniw. Gelwir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r ardoll a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

| | Gwirioneddol 2022/23 £m | Blaenamcan 2023/24 £m | cyllideb 2024/25 £m | cyllideb 2025/26 £m |
|---|---|---|---|---|
| Costau ariannu (£m) | 2.424 | 2.600 | 2.737 | 3.454 |
| Cyfran y llif refeniw net | 6.15% | 5.85% | 5.62% | 6.50% |

**Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys**

71 Mae'r dangosyddion hyn o fewn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch2 2023/24.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Datganiad Polisi Tâl 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Hysbysu Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'u cyfrifoldebau o ran Deddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).

2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol dan sylw.

3 Mae'r papur hwn yn nodi'r Datganiad Polisi Tâl arfaethedig ar gyfer 2024/25. Mae'n aros yr un fath ag ar gyfer 2022/23 a 2023/24.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chymeradwyo Datganiad Polisi Tâl blynyddol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Rhaid i'r datganiad hefyd gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2017, "*Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*"

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Panel Gweithredol ar 18 Mawrth 2024. Cymeradwyodd aelodau'r panel yr adroddiad ac argymell y dylid ei gymeradwyo.

## ARGYMHELLIAD

6 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
**ii) chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.**

## CEFNDIR

7 Rhaid paratoi Datganiad Polisi Tâl yn unol â Rhan 1; Pennod 8 (Adrannau 38 – 43) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig crynodeb o elfennau allweddol y Datganiad Polisi Tâl, gan gynnwys:

(a) gwybodaeth ynghylch cydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion;
(b) cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr ar y cyflogau isaf; ac
(c) y berthynas rhwng:
    (i) cydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion, a
    (ii) chydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

8 Rhaid i'r datganiad nodi:

(a) y diffiniad o "weithwyr ar y cyflogau isaf" a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod at ddibenion y datganiad; a
(b) rhesymau'r Awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.

9 Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys polisïau'r Awdurdod sy'n ymwneud â:

(i) lefel y gydnabyddiaeth ariannol a'i helfennau ar gyfer pob prif swyddog;
(ii) cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion pan gânt eu recriwtio;
(iii) cynyddiadau ac ychwanegiadau at gydnabyddiaeth ariannol pob prif swyddog;
(iv) y defnydd o daliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer prif swyddogion;
(v) y defnydd o daliadau bonws ar gyfer prif swyddogion;
(vi) sut y telir prif swyddogion pan ddeuant at ddiwedd eu cyfnod mewn swydd neu gyflogaeth â'r awdurdod; a
(vii) chyhoeddi a chaniatáu mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion.

## GWYBODAETH

10 Diben y Datganiad Polisi Tâl hwn yw sicrhau bod yr Awdurdod yn dryloyw o ran dangos sut y mae'n pennu cyflogau ei weithwyr, yn enwedig cyflogau prif swyddogion a gweithwyr ar y raddfa gyflog isaf, a hynny trwy nodi pa ddulliau a ddefnyddir i benderfynu ar gyflogau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch tâl, a phenderfyniadau ar dâl uwch yn benodol, gan gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod ac at allu dangos bod tâl yn cael ei ddyrannu yn deg. |
| Cyllideb | Mae dyfarniadau tâl cytunedig a chyhoeddedig y Cyd-gynghorau Cenedlaethol (NJC) yn cael eu hystyried wrth bennu cyllideb flynyddol yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | O dan adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i lunio Datganiad Polisi Tâl blynyddol erbyn 31 Mawrth cyn y flwyddyn y mae'r datganiad ar ei chyfer. |
| Staffio | Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn cefnogi egwyddorion tryloywder, tâl cyfartal a chefnogi staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Mae triniaeth gyfartal o ran tâl yn rhan bwysig o amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod. |
| Risgiau | Mae diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yn arwain at risg gyfreithiol a risg i enw da. |

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Datganiad Polisi Tâl 2024/25**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Prif rôl Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig *Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004*, *Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* (a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006), a *Chynllun Cyfuno 1995*;
- cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol; a
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

1.2 Er mwyn cyflawni ei rôl, mae'r Awdurdod yn penodi staff i gyflawni dyletswyddau ar ei ran, ac wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn yr holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn dilyn nifer o egwyddorion allweddol sy'n sicrhau fforddiadwyedd, tâl cyfartal, tryloywder a chefnogaeth i'r rhai ar dâl isel.

1.3 Diben y ddogfen hon yw bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ogystal â darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Awdurdod yn pennu tâl ei weithwyr. Mae'n darparu gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y raddfa dâl isaf. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i benderfynu ar gyflogau'r holl staff.

1.4 Mae'r ddogfen yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar dâl ac, yn benodol, ar sut i wneud penderfyniadau ar dâl uwch.

1.5 Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ddogfen flynyddol a baratoir ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol sydd dan sylw ynddo.

## 2.0 Fframwaith deddfwriaethol

2.1 Mae Adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr lunio Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2012/13 a phob blwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r canllawiau ym mis Tachwedd 2021, "Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru".

2.2 Mae'r Ddeddf yn cynnig diffiniad eang o gydnabyddiaeth ariannol ac mae'n cynnwys tâl, lwfansau, buddion mewn nwyddau, cynnydd/gwelliannau mewn hawliau pensiwn a thaliadau terfynu swydd.

2.3 Pan fydd yn penderfynu ar dâl a chydnabyddiaeth ariannol ei holl weithwyr, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a, lle bo'n berthnasol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

2.4 Mae'r Awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu ar sail tâl yn digwydd o fewn ei strwythurau tâl, a hynny er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan ofynion tâl cyfartal Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae prosesau gwerthuso swyddi wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad gwrthrychol dros wahaniaethau tâl rhwng gweithwyr ac i sicrhau bod cyflogau'n adlewyrchiad uniongyrchol o ofynion a chyfrifoldebau'r rôl.

**3.0 Gwneud penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian**

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3.2 Mae'r Awdurdod yn cefnogi trefniadau cydfargeinio ac yn cefnogi’r darpariaethau presennol ar lefel genedlaethol sy'n llywodraethu tâl ac amodau gwasanaeth ar gyfer y grwpiau gweithwyr canlynol:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd y Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Aur)
- Y Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol, Cyfansoddiad, Amodau Gwasanaeth, Cyflogau (Llyfr Glas)
- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, Cynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Llwyd)
- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd).

3.3 Caiff lefelau tâl eu hadolygu'n flynyddol trwy ddefnyddio’r trefniadau cydfargeinio hyn a bydd unrhyw daliadau "costau byw" sy'n gysylltiedig ag amodau cytundebol yn cael eu gweithredu ar ôl derbyn hysbysiad gan y corff trafod perthnasol.

3.4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw daliadau 'costau byw' cytundebol i'w brif swyddogion yng nghyd-destun penderfyniadau tebyg ynghylch gweithwyr ar gyflogau is, ac yn unol â chanlyniad y cydfargeinio a amlinellir uchod.

3.5 Mae'r holl swyddi sydd dan amodau’r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol hefyd yn amodol ar gynllun gwerthuso swyddi'r Awdurdod, sy'n asesu pob rôl yn wrthrychol pan fo swydd newydd yn cael ei chreu, pan fo swydd sydd eisoes yn bodoli yn cael ei newid, neu’n ysbeidiol er mwyn pennu gradd gyflog deg sy'n gyson ar draws y grŵp hwn o staff. Pan fyddant yn rhoi’r gorau i’w dyletswyddau o’u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol.

3.6 Yn unol â'r cyfansoddiad, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb ariannol flynyddol gan gynnwys fforddiadwyedd costau gweithwyr.

## 4.0 Swydd y Prif Swyddog Tân

4.1 Y Prif Swyddog Tân yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a nhw sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth. Dyma swydd lawn-amser y penodir iddi ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio meini prawf gwrthrychol a chan ddilyn proses gystadleuol agored. Mae'r broses ddethol yn cael ei goruchwylio gan Banel Penodiadau sy'n cynnwys aelodau'r Awdurdod.

4.2 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gweithio'n agos gydag aelodau etholedig i gyflawni nodau strategol yr Awdurdod. Mae gan y sefydliad gyllideb refeniw flynyddol o tua £49 miliwn a chyllideb gyfalaf o £6.4 miliwn ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, gan gyflogi 903 aelod o staff.

## 5.0 Tâl Prif Swyddogion

5.1 Mae polisi tâl yr Awdurdod ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion, gan gynnwys y Prif Swyddog Tân, yn cyd-fynd â threfniadau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol. O dan y trefniadau hyn, mae tâl Rheolwyr Brigâd yn cael ei adolygu'n flynyddol ar lefel genedlaethol er mwyn darparu'r isafswm cyflog ar gyfer prif swyddogion tân.

5.2 Pan gânt eu penodi, bydd cydnabyddiaeth ariannol y prif swyddogion yn cael ei gosod ar y tâl sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r farchnad ac sydd mewn grym ar y pryd ac yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Hefyd, bydd car yn cael ei ddarparu er mwyn iddynt gyflawni'r swydd.

5.3 Mae cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion hefyd yn destun adolygiad tâl o dro i dro. Mae'r broses hon yn meincnodi lefelau cyflog y prif swyddog yn erbyn cymaryddion perthnasol o awdurdodau tân ac achub eraill. Cynhaliwyd yr adolygiad tâl gan y Swyddog Monitro yn ystod 2021 a chymeradwywyd yr egwyddorion canlynol gan yr Awdurdod:

i. Bydd graddfeydd tâl yn cael eu cysylltu â'r cyfraddau tâl sylfaenol cyfartalog sy'n cael eu cydgasglu a'u cyhoeddi gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol, a hynny er mwyn cynnig cymariaethau priodol sy'n benodol i'r sector;

ii. Bydd deiliaid pob swydd lefel uwch yn cael eu cyflogi ar raddfa tri phwynt, a bydd angen arfarniad blynyddol boddhaol cyn codi i'r pwynt nesaf. Bydd pob cynyddran ar y raddfa yn seiliedig ar ffigwr o £1,500 ar gyfer y PST; a chyfran gymharol ar gyfer y swyddi eraill;

iii. bydd yr Awdurdod yn talu, ar waelod y raddfa driphwynt, y tâl sylfaenol cyfartalog ar gyfer awdurdod ym Mand Poblogaeth 2, a fydd yn cynnwys yr holl ddyletswyddau;

iv. bydd y dyfarniadau tâl blynyddol sy’n cael eu trafod a’u cytuno’n genedlaethol yn cael eu cymhwyso'n awtomatig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos gweithwyr y "llyfr llwyd" a’r "llyfr gwyrdd" (oni fydd gweithiwr yn dewis hepgor unrhyw ran ohono);

v. bydd y perthnasedd tâl rhwng swyddi PST, DBST, PSTC a PSC yn cael ei adfer. Cyfrifir tâl pob swydd lefel uwch fel cyfran o gyflog y Prif Swyddog Tân fel a ganlyn:

| | Cyflog mewn perthynas â’r PST |
|---|---|
| Prif Swyddog Tân | |
| Y Dirprwy Brif Swyddog Tân | 80% |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 75% |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | 60% |

vi. Bydd maint priodol yn cael ei bennu ar gyfer pob swydd, yn unol â’u lefel, a bydd eu maint yn gyson ar draws y lefel er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael tâl cyfartal am waith o’r un gwerth; a

vii. Bydd tâl yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â gofynion y dull 'dau drac' o bennu lefelau tâl ar gyfer Rheolwyr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Tair blynedd yw'r cyfnod derbyniol.

5.4 Nid yw'r Awdurdod yn talu unrhyw fonysau nac ychwanegiadau eraill megis tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Pan fydd prif swyddogion yn rhoi’r gorau i’w dyletswyddau o’u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol iddynt.

5.5 Ar ôl ymddiswyddo neu ymddeol o'u dyletswyddau, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r hyn sy'n ddyledus at ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol ar ôl ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir yn lle rhybudd, hawliau buddion pensiwn a thâl gwyliau.

5.6 Mewn amgylchiadau pan fo pecyn diswyddo'n cael ei ystyried ar ôl cytuno i roi’r gorau i ddyletswyddau, ac eithrio am y rhesymau a amlinellir uchod, bydd yr Awdurdod llawn yn cael cynnig y cyfle i bleidleisio cyn y gellir cymeradwyo unrhyw becyn diswyddo ar gyfer prif swyddogion.

5.7 Cyhoeddir gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod.

5.8 Mae costau busnes, megis tocynnau trên, milltiroedd ceir, llety dros nos, a pharcio yn cael eu hawlio’n ôl yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth y sefydliad, sy'n berthnasol i bob gweithiwr.

5.9 Mae prif swyddogion yn aelodau o'r cynllun pensiwn perthnasol. Nid yw'r Awdurdod yn caniatáu cynyddiadau nac ychwanegiadau i'r pensiwn y tu hwnt i'r trefniadau safonol.

5.10 Y cyfnod rhybudd ar gyfer swyddi prif swyddog yw 3 mis.

**6.0 Staff Uwch**

6.1 At ddibenion y Datganiad Polisi Tâl hwn, nid yw'r term "prif swyddog" wedi'i gyfyngu i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig; yn hytrach, mae'n cynnwys y rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Tân hefyd. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddogion Cynorthwyol.

6.2 Mae'r swyddi hyn yn ddarostyngedig i ystod o delerau ac amodau:

| **Grŵp Gweithwyr** | **Telerau ac Amodau** | **Buddion eraill** | **Trefniadau pensiwn** |
|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Swyddog Monitro | Darperir hyn gan swyddog a enwir o Gyngor Sir y Fflint o dan drefniant contract | | |
| Trysorydd (swyddog adran 151) | Contract rhan-amser a drafodwyd y tu allan i'r telerau ac amodau cenedlaethol. | | |
| Y Dirprwy Brif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **neu** Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **neu** Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | Llyfr Glas | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |

**7.0 Rheoli talent**

7.1 Mae ffocws strategol yr Awdurdod ar gefnogi a datblygu ansawdd arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti'r timau rheoli presennol, cynllunio datblygiad arweinwyr y dyfodol, hyrwyddo gwerthoedd arweinyddiaeth ledled y sefydliad a denu arweinwyr effeithiol o sectorau eraill, pan fo hynny'n briodol.

## 8.0 Taliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad

8.1 Ar hyn o bryd, nid oes cynllun tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar waith ar gyfer unrhyw swydd ar draws y Gwasanaeth.

## 9.0 Cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer staff heblaw am brif swyddogion

9.1 Mae polisi tâl yr Awdurdod ar gyfer talu gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion yn cyd-fynd â’r cyfraddau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac a negodwyd drwy'r Cyd-gyngor Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr cenedlaethol a gweithwyr.

| **Grŵp Gweithwyr** | **Telerau ac Amodau** | **Buddion eraill** | **Trefniadau Pensiwn** |
|---|---|---|---|
| Swyddogion (Rheolwyr Gorsaf, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Ardal) | Y Llyfr Llwyd | Darperir car ar brydles ar gyfer staff y rota dyletswydd fflecsi | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Pennaeth Adrannau Corfforaethol | Y Llyfr Glas | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diffoddwyr tân | Y Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Diffoddwyr tân sy’n brentisiaid | Y Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Staff yr Ystafell Reoli | Y Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diogelwch Tân ac Atal Tanau | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Llyfr Gwyrdd | DIM* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Prentisiaid | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| * Gyda nifer fach o swyddi lle bydd angen teithio’n bell neu deithio’n aml, bydd dewis i gael car prydles | | | |

9.2 Mae'r gweithiwyr ar y cyflogau isaf wedi’u cyflogi ar bwynt 6 colofn gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd), sy'n cyfateb i £23,893 y flwyddyn o 1 Ebrill 2023. O bryd i'w gilydd, bydd yr Awdurdod yn cyflogi prentisiaid sydd ddim wedi’u cynnwys yn y diffiniad o 'weithwyr ar y cyflogau isaf' gan nad ydynt yn cael eu cyflogi o dan gontractau cyflogaeth.

9.3 Mae'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn argymell defnyddio lluosrifau tâl er mwyn mesur y berthynas rhwng cyfraddau tâl ar draws y gweithlu a chyfraddau tâl uwch-reolwyr, fel yr hyn sydd wedi’i gynnwys yn ‘Review of Fair Pay in the Public Sector’ Hutton (2010).

9.4 Yn ôl lefelau tâl o fewn yr Awdurdod yn 2023/24, y lluosrif rhwng graddfa dâl gweithwyr ar y cyflog isaf (tâl sylfaenol cyfwerth ag amser llawn) a'r Prif Swyddog Tân yw 1:5.80.

9.5 Pan gynhaliwyd adroddiad Hutton ar dâl teg yn y sector cyhoeddus, gofynnwyd iddynt ymchwilio'r achos dros gyflwyno terfyn penodedig ar wasgariad tâl o fewn y sector cyhoeddus, a hynny trwy gyflwyno gofyniad a fyddai'n atal unrhyw reolwr sector cyhoeddus rhag ennill mwy nag 20 gwaith yr hyn y mae'r person ar y cyflog isaf yn y sefydliad yn ei ennill. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol, ac mae'r Cod ar yr Arferion a Argymhellir ar Dryloywder Data a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn argymell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a chyflog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod. Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn sylfaenol canolrifol ac enillion y Prif Swyddog Tân yw 1:4.32 (ac eithrio'r system dyletswydd ar alwad). Sylwch mai dim ond cyflogau llawn-amser sydd wedi'u cynnwys yn y ffigwr hwn a'i fod yn eithrio lwfansau.

9.6 Yn eu datganiad ariannol blynyddol, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, am enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad, ac am y gymhareb rhwng y ddau ffigur hyn er mwyn dangos y berthynas rhwng y ddau.

## 10.0 Cefnogaeth i staff ar gyflogau is

10.1 Mae cyflogau holl weithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub uwchlaw'r cyflog byw. Mae ystod o fesurau cymorth pellach yn cael eu cynnig hefyd, gan gynnwys cynllun beicio i'r gwaith, Rhaglen Cymorth i Weithwyr, cwnsela, gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, a thalebau gofal plant.

10.2 Mae cynllun ffisiotherapi hefyd ar gael i bob gweithiwr. Mae gweithwyr yn derbyn cymorth ariannol er mwyn gallu atgyfeirio eu hunain ar gyfer therapi ar gyfer anaf cyhyrysgerbydol neu ar gyfer anhwylderau eraill.

10.3 Mae ystod o fuddion hyblyg wedi'u cyflwyno hefyd, gan gynnwys gostyngiadau corfforaethol. Mae buddion a gwobrau sydd ddim yn ariannol yn helpu i ddatblygu pecyn cyflogaeth effeithiol, ac mae'n defnyddio systemau gwobrwyo lle gall gweithwyr addasu'r gwobrau er mwyn derbyn mwy o ba bynnag beth sydd bwysicaf iddynt ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd.

## 11.0 Ychwanegiadau at Gyflogau Gweithwyr Eraill

11.1 Lle bo'n briodol, ac yn unol ag amodau gwasanaeth cenedlaethol neu gytundebau lleol, gall unigolion dderbyn lwfans ar ben eu cyflog. Gan gynnwys, ymhlith eraill:

- darpariaeth ar-alwad neu y tu allan i oriau
- argaeledd parhaus
- cyfrifoldeb ychwanegol
- lwfans rhent, tanwydd a golau
- lwfans ffôn
- cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr
- lwfansau milltiroedd.

## 12.0 Honoraria

12.1 Gall aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, a hynny dros gyfnod estynedig, gael taliad untro ychwanegol, gyda'r swm yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos dan sylw. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- pan fo gweithiwr yn gwneud gwaith ychwanegol sylweddol dros dro, y tu hwnt i'w cyfrifoldebau arferol; neu
- pan fo gweithiwr yn gwneud cryn dipyn o waith dros eu horiau contract arferol, ond nad ydynt yn gymwys i gael taliadau goramser oherwydd eu safle ar y raddfa gyflog.

12.2 Byddai unrhyw benderfyniad ynghylch honoraria arfaethedig i brif swyddog angen cymeradwyaeth yr Awdurdod.

12.3 Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r holl staff eraill yn cael eu hystyried gan y Pennaeth Adran priodol mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

## 13.0 Polisi ymadael

13.1 Ar ôl rhoi'r gorau i ddyletswyddau yn wirfoddol, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r hyn sy'n ddyledus at ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir yn lle rhybudd, hawliau budd-dal pensiwn, tâl gwyliau ac unrhyw ffioedd neu lwfansau a delir.

13.2 Gall gweithwyr sydd wedi'u cyflogi dan amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod, hawlio taliadau pensiwn ychwanegol a/neu daliad dileu swydd os bydd yr awdurdod yn dewis terfynu eu cyflogaeth yn gynnar, o dan ddisgresiwn yr Awdurdod mewn perthynas â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd) – sy'n aml yn cael eu galw'n Reoliadau Iawndal Dewisol.

13.3 Mae gan y Gwasanaeth bolisi ar gyfer trefniadau diswyddo neu ymadael.

13.4 Ar brydiau, bydd cyn-weithwyr yn cael eu hailgyflogi gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Pan fo cyfanswm eu henillion a'u pensiwn yn uwch na'u cyflog ar ddiwedd eu cyflogaeth wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, gall y pensiwn gael ei leihau yn unol â rheoliadau'r cynllun.

## 14.0 Trefniadau oddi ar y gyflogres

14.1 Anaml y bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu ag unigolion gan ddefnyddio trefniadau oddi ar y gyflogres. Dim ond ar sail eithriadol y byddant yn cael eu hystyried, a hynny dim ond ar gyfer darnau arbenigol o waith na ellir eu cwblhau'n fewnol oherwydd diffyg capasiti neu ddiffyg arbenigedd. Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau bod adnodd dangosydd statws cyflogaeth CThEF yn cael ei gwblhau ar gyfer pob cyflenwr cyn y gwneir unrhyw daliadau.

## 15.0 Atodiadau

Atodiad 1 Matrics cyflog Prif Swyddogion

Atodiad 2 Cyfraddau cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol
- 2.1 Swyddi Diffodd Tân
- 2.2 Y System Dyletswydd ar Alwad
- 2.3 Swyddi’r Ystafell Reoli

Atodiad 3 Y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, matrics cyflog

**Atodiad 1**

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Cyfraddau Tâl Prif Swyddogion (fel yr oeddent ym mis Ionawr 2024)**

| **Swydd** | Cyflog | Cyflog | Cyflog | % o PST |
|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | |
| PST* | £153,066 | £154,729 | £156,392 | |
| DBST | £122,453 | £123,783 | £125,114 | 80% |
| PSTC* | £114,800 | £116,047 | £117,294 | 75% |
| PSC | £91,840 | £92,837 | £93,835 | 60% |

* yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol am drefniadau dyletswydd parhaus

| **Darparu gwasanaeth allanol** | **Gwerth (y flwyddyn)** |
|---|---|
| Swyddog Monitro | £18,370 (heb gynnwys TAW) |
| Swyddog Adran 151 | £8,180 |

# SWYDDI DIFFODD TÂN - CYFRADDAU TÂL O 1 GORFFENNAF 2023 (mae'r dyfarniadau tâl ar gyfer 1 Gorffennaf 2024 ac ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)

| | Blynyddol sylfaenol £ | Cyfradd sylfaenol yr awr £ | Cyfradd goramser £ |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr tân** | | | |
| Hyfforddai | 27,178 | 12.41 | 18.62 |
| Datblygu | 28,310 | 12.93 | 19.40 |
| Cymwys | 36,226 | 16.54 | 24.81 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw** | | | |
| Datblygu | 38,501 | 17.58 | 26.37 |
| Cymwys | 40,161 | 18.34 | 27.51 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | |
| Datblygu | 41,031 | 18.74 | 28.11 |
| Cymwys A | 42,170 | 19.26 | 28.89 |
| Cymwys B | 44,911 | 20.51 | 30.77 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | |
| Datblygu | 46,712 | 21.33 | 32.00 |
| Cymwys A | 48,116 | 21.97 | 32.96 |
| Cymwys B | 51,525 | 23.53 | 35.30 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp** | | | |
| Datblygu | 53,801 | 24.57 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 55,415 | 25.30 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 59,642 | 27.23 | Amherthnasol |
| | | | |
| **Rheolwr Ardal** | | | |
| Datblygu | 63,163 | 28.84 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 65,056 | 29.71 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 69,283 | 31.64 | Amherthnasol |

**SWYDDI DIFFODD TÂN - CYFRADDAU TÂL O 1 GORFFENNAF 2023 (SYSTEM DYLETSWYDD AR ALWAD) (mae'r dyfarniadau tâl ar gyfer 1 Gorffennaf 2024 ac ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)**

| | (1) £ y Flwydd yn | (2) £ y flwydd yn | (3) £ yr Awr | (4) £ yr achlysur |
|---|---|---|---|---|
| **Diffoddwr tân** | | | | |
| Hyfforddai | 2,718 | 1,359 | 12.41 | 4.77 |
| Datblygu | 2,831 | 1,416 | 12.93 | 4.77 |
| Cymwys | 3,623 | 1,811 | 16.54 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Criw** | | | | |
| Datblygu | 3,850 | 1,925 | 17.58 | 4.77 |
| Cymwys | 4,016 | 2,008 | 18.34 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | | |
| Datblygu | 4,103 | 2,052 | 18.74 | 4.77 |
| Cymwys A | 4,217 | 2,109 | 19.26 | 4.77 |
| Cymwys B | 4,491 | 2,246 | 20.51 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | | |
| Datblygu | 4,671 | 2,336 | 21.33 | 4.77 |
| Cymwys A | 4,812 | 2,406 | 21.97 | 4.77 |
| Cymwys B | 5,153 | 2,576 | 23.53 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Grŵp** | | | | |
| Datblygu | 5,380 | 2,690 | 24.57 | 4.77 |
| Cymwys A | 5,542 | 2,771 | 25.30 | 4.77 |
| Cymwys B | 5,964 | 2,982 | 27.23 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Ardal** | | | | |
| Datblygu | 6,316 | 3,158 | 28.84 | 4.77 |
| Cymwys A | 6,506 | 3,253 | 29.71 | 4.77 |
| Cymwys B | 6,928 | 3,464 | 31.64 | 4.77 |

Mae Colofn 1 yn dangos y tâl cadw blynyddol llawn (10% o'r cyflog blynyddol sylfaenol llawn-amser, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 2 yn dangos y tâl cadw ar gyfer gweithwyr ar y system ddyletswydd criwio dydd (5% o'r cyflog blynyddol sylfaenol llawn-amser, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 3 yn dangos y gyfradd fesul awr ar gyfer gwaith a wnaed

Mae Colofn 4 yn dangos y tâl am darfu fesul galwad

## SWYDDI PENODOL I'R YSTAFELL REOLI - CYFRADDAU TÂL O 1 GORFFENNAF 2023 (mae'r dyfarniadau tâl ar gyfer 1 Gorffennaf 2024 ac ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)

| | **Blynyddol sylfaenol* £** | **Cyfradd sylfaenol yr awr £** | **Cyfradd goramser £** |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân (Ystafell Reoli)** | | | |
| Hyfforddai | 25,819 | 11.79 | 17.69 |
| Datblygu | 26,895 | 12.28 | 18.42 |
| Cymwys | 34,415 | 15.71 | 23.57 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw (Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 36,576 | 16.70 | 25.05 |
| Cymwys | 38,153 | 17.42 | 26.13 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa (Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 38,979 | 17.80 | 26.70 |
| Cymwys A | 40,062 | 18.29 | 27.44 |
| Cymwys B | 42,665 | 19.48 | 29.22 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf (Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 44,376 | 20.26 | 30.39 |
| Cymwys A | 45,710 | 20.87 | 31.31 |
| Cymwys B | 48,949 | 22.35 | 33.53 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp (Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 51,111 | 23.34 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 52,644 | 24.04 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 56,660 | 25.87 | Amherthnasol |

* (95% o'r cyflog blynyddol sylfaenol ar gyfer swyddi diffodd tân, fel y nodir yn Atodiad A)

**CYFRADDAU TÂL O 1 EBRILL 2023 AR GYFER STAFF A GYFLOGIR AR DELERAU AC AMODAU LLYFR GWYRDD (mae'r trafodaethau tâl ar gyfer 24/25 yn parhau)**

| SCP | 01-Ebr-23 | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | yr awr* |
| 1 | Amh. | Amh. |
| 2 | £22,366 | £11.59 |
| 3 | £22,737 | £11.79 |
| 4 | £23,114 | £11.98 |
| 5 | £23,500 | £12.18 |
| 6 | £23,893 | £12.38 |
| 7 | £24,294 | £12.59 |
| 8 | £24,702 | £12.80 |
| 9 | £25,119 | £13.02 |
| 10 | £25,545 | £13.24 |
| 11 | £25,979 | £13.47 |
| 12 | £26,421 | £13.69 |
| 13 | £26,873 | £13.93 |
| 14 | £27,334 | £14.17 |
| 15 | £27,803 | £14.41 |
| 16 | £28,282 | £14.66 |
| 17 | £28,770 | £14.91 |
| 18 | £29,269 | £15.17 |
| 19 | £29,777 | £15.43 |
| 20 | £30,296 | £15.70 |
| 21 | £30,825 | £15.98 |
| 22 | £31,364 | £16.26 |
| 23 | £32,076 | £16.63 |
| 24 | £33,024 | £17.12 |
| 25 | £33,945 | £17.59 |
| 26 | £34,834 | £18.06 |
| 27 | £35,745 | £18.53 |
| 28 | £36,648 | £19.00 |
| 29 | £37,336 | £19.35 |
| 30 | £38,223 | £19.81 |
| 31 | £39,186 | £20.31 |
| 32 | £40,221 | £20.85 |
| 33 | £41,418 | £21.47 |
| 34 | £42,403 | £21.98 |
| 35 | £43,421 | £22.51 |
| 36 | £44,428 | £23.03 |
| 37 | £45,441 | £23.55 |
| 38 | £46,464 | £24.08 |
| 39 | £47,420 | £24.58 |
| 40 | £48,474 | £25.13 |
| 41 | £49,498 | £25.66 |
| 42 | £50,512 | £26.18 |
| 43 | £51,515 | £26.70 |

*****cyfradd fesul awr wedi'i chyfrifo trwy rannu'r cyflog blynyddol â 52.143 wythnos (sef 365 diwrnod wedi'i rannu â 7) ac yna ei rannu â 37 awr (sef yr wythnos waith safonol yn ôl Cytundeb Cenedlaethol y 'Llyfr Gwyrdd')

## CYFRADDAU TÂL O 1 EBRILL 2023 AR GYFER STAFF A GYFLOGIR AR DELERAU AC AMODAU LLYFR GLAS

## (mae'r trafodaethau tâl ar gyfer 24/25 yn parhau)

| SCP | 01-Ebr-23 | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | yr awr |
| 48 | £56,285 | £29.17 |
| 49 | £58,328 | £30.23 |
| 50 | £59,348 | £30.76 |
| 51 | £60,368 | £31.29 |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 – Mawrth 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y Strategaeth) yn dangos sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli ei fenthyciadau (benthyciadau o'r PWLB) a'i fuddsoddiadau (adneuon arian parod mewn banciau yn bennaf) ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac yn gosod y polisïau y bydd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu o'u mewn.

3 Datblygwyd y Strategaeth hon ar y cyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, a'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024, yn ogystal â'r Strategaeth Gyfalaf, sydd hefyd yn cael ei chyflwyno heddiw.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25;**

**SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Mawrth 2024. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad ac argymell y dylid ei gymeradwyo.

**CEFNDIR**

6 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys ("Cod TM CIPFA") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Strategaeth a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

**GWYBODAETH**

7 Mae'r Strategaeth, a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 gan roi trosolwg o ddull yr Awdurdod o fenthyca i ariannu'r cynlluniau gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymgorffori'r dull o reoli buddsoddiadau, er y dylai Aelodau nodi bod hyn yn ymgorffori rheoli arian sydd dros ben yn y tymor byr yn unig.

8 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am arian parod yr Awdurdod, sy'n rhan hanfodol o waith yr Awdurdod, gan fod oddeutu £46m yn mynd trwy gyfrif banc yr Awdurdod bob blwyddyn.

9 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cael lefelau amrywiol o arian parod ar gael i'w fuddsoddi yn y tymor byr, yn amrywio o £3m - £12m, yn 2023/24. O ganlyniad, mae angen iddo sicrhau'r gyfradd enillion orau bosibl heb beryglu'r arian yn ddiangen. Mae risg yn cael ei leihau trwy arallgyfeirio, sy'n golygu bod arian yr Awdurdod yn cael ei fuddsoddi gyda nifer o sefydliadau ariannol.

10 Wrth fuddsoddi, bydd yr Awdurdod yn cadw at yr egwyddorion canlynol. Mae trefn y tair egwyddor hyn yn bwysig, gyda Diogelwch yn brif flaenoriaeth.

- Diogelwch: Cadw arian yn ddiogel
- Hylifedd: Sicrhau bod arian ar gael pan fydd ei angen
- Arenillion: Sicrhau cyfradd enillion weddus

11 Bydd yr Awdurdod yn parhau i fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf. Ar gyfer 2024/25, amcangyfrifir y bydd yn benthyca £5.676m, i ariannu'r gwariant cyfalaf. Disgwylir y bydd hyn yn cynyddu'r benthyca i £24.493m erbyn 31 Mawrth 2025 (amcangyfrif Mawrth 2024: £20.787m).

12 Amcangyfrifir mai'r llog ar fenthyciadau cyfredol a newydd ar gyfer 2024/25 fydd £0852m. Rhagwelir y bydd y cyfraddau llog ar gyfer benthyciadau newydd yn 5.25%.

13 Cefnogir yr Awdurdod drwy ddefnyddio ymgynghorwyr proffesiynol, Arlingclose, sy'n darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

14 Bydd y dangosyddion Darbodus Cyfalaf yn cael eu hadrodd fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod prynu asedau i gefnogi cyflwyno gwasanaethau rheng-flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae’r Strategaeth Gyfalaf wedi’i chynllunio i sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi’r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r strategaethau'n cysylltu â'r gyllideb refeniw a chyfalaf sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hwy |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |

# Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# CYNNWYS


| ADRAN | | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Cyd-destun Allanol | 2 |
| 3 | Cyd-destun Lleol | 3 |
| 4 | Strategaeth Fenthyca | 5 |
| 5 | Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys | 7 |
| 6 | Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys | 10 |
| 7 | Materion Cysylltiedig | 12 |
| 8 | Goblygiadau Ariannol | 12 |
| 9 | Opsiynau Eraill a Ystyrir | 12 |
| Atodiad A | Rhagolygon Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose | 14 |
| Atodiad B | Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru | 16 |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Awdurdod, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Awdurdod wedi benthyca symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae dynodi, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus yn ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus yr Awdurdod.

1.2 Mae rheoli risg trysorlys yn yr Awdurdod yn cael ei wneud o fewn fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice 2021 Edition* (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllawiau diwygiedig ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol ym mis Tachwedd 2019 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol yr Awdurdod dan *Deddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllawiau LlC.

1.3 **Strategaeth ddiwygiedig:** Yn unol â Chanllawiau LlC, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys diwygiedig os bydd y tybiaethau y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, gyda goblygiadau i raglen gyfalaf yr Awdurdod.

## 2 Cyd-destun Allanol

2.1 **Cefndir economaidd:** Bydd effaith cyfraddau llog a chwyddiant uwch ar y DU, ynghyd â rhagolwg economaidd sy'n gwaethygu, hinsawdd wleidyddol ansicr oherwydd yr etholiad cyffredinol sydd ar ddod, ynghyd â'r rhyfel yn yr Wcráin a'r Dwyrain Canol, yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25.

2.2 **Rhagolwg cyfradd llog (Rhagfyr 2023):** Er bod chwyddiant y DU a thwf cyflog yn parhau yn uchel, mae ymgynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod (Arlingclose) yn rhagweld bod cyfradd y banc wedi cyrraedd ei huchafbwynt ar 5.25%. Bydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn dechrau gostwng cyfraddau yn 2024 i ysgogi economi'r DU, ond bydd yn amharod i wneud hynny nes ei fod yn sicr na fydd unrhyw effeithiau ail-rownd yn parhau. Mae Arlingclose yn rhagweld toriadau mewn cyfraddau o Ch3 2024 i lefel isel o tua 3% erbyn dechrau i ganol 2026.

2.3 Mae rhagolwg manylach ar faterion economaidd a chyfraddau llog gan Arlingclose yn Atodiad A.

2.4 At ddibenion pennu'r gyllideb, tybiwyd y bydd benthyciadau newydd hirdymor yn cael eu benthyg ar gyfradd gyfartalog o 5.25%.

## 3 Cyd-destun Lleol

3.1 Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd gan yr Awdurdod £21.620m o fenthyciadau a £7.743m o fuddsoddiadau trysorlys, fel y nodir isod.

| | *Rhagfyr 2023 Portffolio gwirioneddol £m* | **Rhagfyr 2023 Cyfradd gyfartalog %** |
|---|---|---|
| **Benthyciadau allanol:** | | |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 18.620 | 2.46% |
| Awdurdodau lleol | 3.000 | 4.35% |
| **Cyfanswm benthyciadau allanol** | **21.620** | |
| **Rhwymedigaethau hirdymor eraill:** | | |
| Prydlesi Cyllid | 0 | |
| **Cyfanswm dyled allanol gros** | **21.620** | |
| **Buddsoddiadau Trysorlys** | | |
| Llywodraeth y DU | 3.400 | 5.19% |
| Banciau (ansicredig) | 4.343 | 4.65 - 5.38% |
| **Cyfanswm buddsoddiadau'r trysorlys** | **7.743** | |
| **Dyled net** | **13.877** | |

3.2 Ar hyn o bryd mae'r holl brydlesi yn cael eu trin fel prydlesi gweithredol, fodd bynnag o 1 Ebrill 2024, bydd adrodd am brydlesi yn newid a bydd rhai prydlesi yn cael eu hystyried yn asedau Hawl Defnyddio (ROU) – er enghraifft, prydlesi eiddo a byddant yn ymddangos o fewn yr wybodaeth fenthyca ar adroddiadau yn y dyfodol.

3.3 Dangosir y newidiadau a ragwelir yn y symiau hyn yn y dadansoddiad mantolen yn nhabl 1 isod.

*Tabl 1: Crynodeb a rhagolwg y fantolen*

| | **31.3.23 Gwirioneddol £m** | **31.3.24 Amcangyfrif £m** | **31.3.25 Rhagolwg £m** | **31.3.26 Rhagolwg £m** | **31.3.27 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad ariannu cyfalaf | 28.877 | 32.350 | 36.391 | 40.948 | 42.765 |
| Llai: Rhwymedigaethau dyledion eraill * | 0.000 | 0.000 | -0.225 | -0.252 | -0.302 |
| CFR Benthyciadau | 28.877 | 32.350 | 36.616 | 41.200 | 43.067 |
| Llai: Benthyca allanol ** | -26.460 | -20.787 | -17.073 | -11.456 | -10.137 |
| Benthyca mewnol/(gor-fenthyca) | **2.417** | **11.563** | **19.543** | **29.744** | **32.930** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.594 | -5.600 | -4.700 | -4.200 | -3.700 |
| Buddsoddiadau/ (benthyciadau newydd) | **4.177** | **-5.963** | **-14.843** | **-25.544** | **-29.230** |

* prydlesi sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyledion yr Awdurdod

** yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt ac yn eithrio ailariannu dewisol

3.4 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r symiau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol.

3.5 Mae gan yr Awdurdod CFR cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf, ond ychydig iawn o fuddsoddiadau ac felly bydd gofyn iddo fenthyca hyd at £16.568m dros y cyfnod 2024-2027.

Mae *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyled yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf a ragwelwyd dros y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn rhwydd yn ystod 2024/25.

3.6 **Meincnod rhwymedigaeth:** Er mwyn cymharu benthyciadau gwirioneddol yr Awdurdod yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod rhwymedigaeth wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon â thabl 1 uchod, ond bod balansau arian parod a buddsoddiad yn cael eu cadw i isafswm o £2m ar ddiwedd pob blwyddyn i gynnal hylifedd digonol ond lleihau risg credyd.


3.7 Mae'r meincnod rhwymedigaeth yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i benderfyniadau yn sgil hynny. Mae'r meincnod rhwymedigaeth ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gael i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

*Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod rhwymedigaeth*

| | **31.3.23 Gwirioneddol £m** | **31.3.24 Amcangyfrif £m** | **31.3.25 Rhagolwg £m** | **31.3.26 Rhagolwg £m** | **31.3.27 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 28.877 | 32.350 | 36.616 | 41.200 | 43.067 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.594 | -5.600 | -4.700 | -4.200 | -3.700 |
| Gofyniad benthyciadau net | 22.283 | 26.750 | 31.916 | 36.800 | 39.367 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 |
| Meincnod rhwymedigaeth | **24.283** | **28.750** | **33.916** | **38.800** | **41.367** |

3.8 Yn dilyn ymlaen o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod rhwymedigaeth hirdymor yn rhagdybio y bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu drwy fenthyca £5.676m yn 2024/25, £6.424m yn 2025/26 a £4.468m yn 2026/27.

3.9 Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar eu hoes ased ar gyfer y dosbarth asedau (er enghraifft 50 mlynedd ar gyfer adeiladau, 15 mlynedd ar gyfer peiriannau tân) ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod:




3.10 Bydd yr Awdurdod yn parhau i fod yn fenthyciwr gan nad yw'r awdurdod yn dal buddsoddiadau na chronfeydd wrth gefn i ariannu'r cynllun cyfalaf. Mae'r llinell las yn dynodi'r angen i ariannu gwariant cyfalaf drwy fenthyca. Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Rhwymedigaeth. Mae’r llinell goch doredig yn cynrychioli’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae’r llinell solet yn cynrychioli’r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae’r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae’n golygu bod angen benthyca.

## 4 Strategaeth Fenthyca

4.1 Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod £21.602m o fenthyciadau, gostyngiad o £4.840m ar y balans ar 31 Mawrth 2023, fel rhan o’i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol. Mae rhagolwg y fantolen yn nhabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl benthyca hyd at £14.843m yn 2024/25. Gall yr Awdurdod hefyd fenthyca symiau ychwanegol i ragariannu gofynion blynyddoedd i ddod, ar yr amod nad yw hyn yn fwy na’r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca o £36.616m.

4.2 **Amcanion:** Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw i gael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chael sicrwydd ynghylch y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae’r hyblygrwydd i ailnegodi benthyciadau, pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid, yn amcan eilaidd.

4.3 **Strategaeth:** O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn arbennig i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrin â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion. Ar hyn o bryd mae cyfraddau llog tymor byr ar uchafbwynt 15 mlynedd ond disgwylir iddynt ostwng yn y blynyddoedd i ddod. Felly mae'n debygol o fod yn fwy cost-effeithiol yn y tymor canolig i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny. Drwy wneud hynny, mae'r Awdurdod yn gallu lleihau costau benthyca net a lleihau risg gyffredinol y trysorlys. Bydd manteision benthyca tymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer ysgwyddo costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i'r blynyddoedd i ddod pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca hirdymor yn codi'n gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r dadansoddiad 'cost cario' ac adennill costau hwn. Gall ei allbwn benderfynu a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2024/25 gyda'r bwriad o gadw costau llog yn y dyfodol yn isel, hyd yn oed os yw hyn yn achosi costau ychwanegol yn y tymor byr.

4.4 Yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi codi'r cyfan o'i fenthyciadau hirdymor oddi wrth y PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau hirdymor o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, cronfeydd pensiwn a/neu awdurdodau lleol, er mwyn lleihau costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell ariannu, yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi ar gyfer arenillion yn bennaf; bydd yr Awdurdod yn parhau i osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn parhau i gael mynediad at fenthyciadau PWLB.

4.5 Fel arall, gall yr Awdurdod drefnu benthyciadau cychwyn ymlaen llaw, lle mae'r gyfradd llog wedi'i gosod ymlaen llaw, ond bod yr arian parod yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd diweddarach. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd cost heb ddioddef cost cario yn y cyfamser.

4.6 Yn ogystal, gall yr Awdurdod fenthyca rhagor o fenthyciadau tymor byr i dalu am brinder llif arian nas cynlluniwyd.

4.7 **Ffynonellau benthyca:** Y ffynonellau cymeradwy ar gyfer benthyca tymor hir a thymor byr yw:

- Cyfleuster benthyca PWLB Trysorlys EF (y cyn Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall a awdurdodwyd i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yn y DU
- cronfeydd pensiwn sector cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Clwyd - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)
- UK Municipal Bonds Agency plc a chwmnïau pwrpas arbennig eraill a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau awdurdodau lleol

4.8 **Ffynonellau cyllid dyled eraill:** Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- prydlesu
- gwerthu ac adlesu
- cyllid tebyg sy'n seiliedig ar asedau

4.9 **Municipal Bonds Agency:** Sefydlwyd yr UK Municipal Bonds Agency plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n cyhoeddi bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf ac yn benthyca'r elw i awdurdodau lleol. Mae hon yn ffynhonnell fwy cymhleth o gyllid na'r PWLB am ddau reswm: mae'n ofynnol i awdurdodau benthyca roi gwarant i fuddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad os na fydd yr asiantaeth yn gallu gwneud hynny am unrhyw reswm; a cheir cyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a gwybod y gyfradd llog sy'n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly yn destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio.

4.10 **Benthyciadau tymor byr a chyfradd amrywiol:** Mae'r benthyciadau hyn yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o godiadau cyfradd llog tymor byr ac felly maent yn amodol ar y terfynau cyfradd llog yn y dangosyddion rheoli trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli'r risg cyfradd llog hon (gweler yr adran isod).

4.11 **Aildrefnu dyled:** Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd a thalu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn unol â fformiwla benodol yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol. Efallai y bydd benthycwyr eraill hefyd yn barod i drafod telerau adbrynu cynamserol. Gall yr Awdurdod fanteisio ar hyn a rhoi benthyciadau newydd yn lle rhai benthyciadau, neu ad-dalu benthyciadau heb eu disodli, lle disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

## 5 Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiad trysorlys yr Awdurdod wedi amrywio rhwng £3.737m a £14.616m miliwn. Disgwylir i lefelau buddsoddi fod yn is yn y flwyddyn i ddod, yn rhannol oherwydd swm y grant y gellir ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

5.2 **Amcanion:** Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion neu'r arenillion uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. Lle y disgwylir buddsoddi balansau am fwy na blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn anelu i sicrhau cyfanswm elw sy'n gydradd â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol neu'n uwch na hynny, er mwyn cynnal pŵer gwario'r swm a fuddsoddwyd. Nod yr Awdurdod yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

5.3 **Strategaeth:** Fel y dangosir gan y meincnod rhwymedigaeth uchod, nid yw'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys newydd yn cael eu gwneud yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

5.4 **Polisi ESG**: Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn ffactor cynyddol wrth i fuddsoddwyr byd-eang wneud penderfyniadau, ond mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso cyfleoedd buddsoddi yn dal i ddatblygu ac felly nid yw polisi ESG yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnwys sgoriau ESG neu feini prawf ESG amser real eraill ar lefel buddsoddiad unigol. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

5.5 **Gwrthbartïon cymeradwy:** Gall yr Awdurdod fuddsoddi ei arian dros ben gydag unrhyw un o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau a ddangosir.

*Tabl 3: Gwrthbartïon a therfynau buddsoddi'r trysorlys*

| **Sector** | **Terfyn amser** | **Terfyn gwrthbarti** | **Terfyn sector** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | amherthnasol |
| Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth | 25 mlynedd | £2m | Diderfyn |
| Banciau (anwarantedig) | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (anwarantedig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Darparwyr cofrestredig (anwarantedig) * | 5 mlynedd | £1m | Diderfyn |
| Cronfeydd marchnad arian * | amherthnasol | £1m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £1m | Diderfyn |

Mae'n rhaid darllen y tabl hwn ar y cyd â'r nodiadau isod

*** Isafswm sgôr credyd:** Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd yn is nag A- y bydd buddsoddiadau'r trysorlys yn y sectorau sydd wedi'u marcio â seren yn cael eu gwneud. Os yw ar gael, defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth penodol o fuddsoddiad, fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

5.6 **Y Llywodraeth:** Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warentir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun '*bail-in*', ac yn gyffredinol mae'r risg ansolfedd yn is, er nad ydynt yn risg sero. Ystyrir bod buddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU yn sero risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian cyfred ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 mlynedd.

5.7 **Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (anwarantedig):** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau diwarant uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg o golli credyd drwy '*bail-in*' pe bai'r rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

5.8 **Cronfeydd marchnad arian:** Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod neu'n fyr rybudd ac ansefydlogrwydd isel iawn neu ddim o gwbl o ran prisiau drwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddynt y fantais dros gyfrifon banc o ddarparu amrywiaeth eang o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfeydd proffesiynol yn gyfnewid am ffi fach. Er nad oes terfyn sector yn berthnasol i gronfeydd y farchnad arian, bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylifol ar draws amrywiaeth o ddarparwyr er mwyn sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

5.9 **Cyfrifon banc gweithredol:** Gall yr Awdurdod achosi datguddiadau gweithredol, er enghraifft drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr, i unrhyw fanc yn y DU sydd â statws credyd heb fod yn is na BBB- ac sydd ag asedau sy'n fwy na £25 biliwn. Nid yw'r rhain yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau ond maent yn dal i fod yn agored i risg o fechnïaeth y banc, ac felly bydd balansau'n cael eu cadw o dan £5m y banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan, os bydd methiant, bod banciau ag asedau o fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o gael eu hachub ar fechnïaeth na'u gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r siawns y bydd yr Awdurdod yn cynnal parhad gweithredol.

5.10 **Asesiad risg a statws credyd:** Caiff statws credyd ei sicrhau a'i fonitro gan ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, a fydd yn rhoi gwybod am newidiadau mewn graddfeydd wrth iddynt ddigwydd. Rhestrir yr asiantaethau statws credyd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys. Pan fo statws credyd endid wedi'i israddio fel ei fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,
- bydd buddsoddiadau presennol y gellir eu hadalw neu eu gwerthu heb unrhyw gost yn cael eu hadalw neu eu gwerthu, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti yr effeithir arno.

5.11 Pan fydd asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu ar gyfer israddio posibl (a elwir hefyd yn "wyliadwriaeth negyddol") fel y gall ddisgyn yn is na'r meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu'n ôl fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw tan cyhoeddi canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dynodi cyfeiriad hirdymor yn hytrach na newid graddfa sydd ar fin digwydd.

5.12 **Agweddau ar enw da:** Mae'r Awdurdod yn ymwybodol y gallai buddsoddiad gyda rhai gwrthbartïon, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

5.13 Pan fydd dirywiad yn amodau'r farchnad ariannol yn effeithio ar deilyngdod credyd pob sefydliad, fel y digwyddodd yn 2008 a 2020, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol ar statws credyd, ond mae i'w weld mewn mesurau marchnad eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny o ansawdd credyd uwch ac yn lleihau hyd ei fuddsoddiadau i gynnal y lefel ofynnol o sicrwydd. Bydd maint y cyfyngiadau hyn yn unol ag amodau'r farchnad ariannol ar y pryd. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian parod yr Awdurdod, yna bydd y gwarged yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i enillion buddsoddi ostwng ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.14 **Rheoli hylifedd**: Mae'r Awdurdod yn cynnal rhagolygon llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo arian yn ddarbodus ar ei gyfer. Mae'r rhagolwg yn cael ei lunio ar sail ddarbodus i leihau'r risg y bydd yr Awdurdod yn cael ei orfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i gwrdd â'i ymrwymiadau ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau hirdymor. Bydd yr Awdurdod yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf dau ddarparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod modd cael mynediad at arian parod os bydd anawsterau gweithredol i unrhyw un darparwr.

## 6 Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys

6.1 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

6.2 **Diogelwch:** Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risgiau credyd drwy fonitro statws credyd cyfartalog ei bortffolio buddsoddiadau, wedi'i bwysoli yn ôl gwerth. Cyfrifir hyn drwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2 ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli yn ôl maint pob buddsoddiad. Neilltuir sgôr ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt wedi eu graddio yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| Dangosydd risg credyd | Targed |
|---|---|
| Credyd cyfartalog portffolio | A |

6.3 **Hylifedd:** Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risgiau hylifedd drwy fonitro faint o arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn pob cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| **Dangosydd risg hylifedd** | **Targed** |
|---|---|
| Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis | £2m |

6.4 **Amlygiad i gyfraddau llog** Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risgiau cyfraddau llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog fydd:

| **Dangosydd risg cyfraddau llog** | **Terfyn** |
|---|---|
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | -£0.030m |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog | £0.030m |

Cyfrifir effaith newid mewn cyfraddau llog ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu disodli gan rai ar gyfraddau marchnad newydd.

6.5 **Strwythur aeddfedrwydd benthyciadau:** Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyca fydd:

| **Dangosydd risg cyfradd ailariannu** | **Gwirioneddol** | **Terfyn uchaf** | **Terfyn isaf** |
|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 26% | 30% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 11% | 30% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 28% | 40% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 3% | 30% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 32% | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

## 7 Materion Perthnasol

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

7.1 **Deilliadau ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (megis cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, a bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

7.2 **Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol:** Mae'r Awdurdod wedi cadw statws cleient manwerthu gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr cronfeydd, gan ganiatáu iddo gael mynediad at ystod lai o wasanaethau ond gyda'r diogelwch rheoleiddiol ehangach a roddir i unigolion a chwmnïau bach. O ystyried maint ac ystod gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod, mae swyddogion yr Awdurdod o'r farn mai dyma'r statws mwyaf priodol.

7.3 **Canllawiau'r Llywodraeth:** Mae materion pellach sy'n ofynnol gan Ganllawiau LlC wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

## 8 Goblygiadau Ariannol

8.1 Nid oes gan yr Awdurdod bortffolio buddsoddi ac felly nid oes cyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2024/25. Mae unrhyw incwm buddsoddi yn ymwneud â lleoli arian sydd dros ben dros nos. Y gyllideb ar gyfer llog dyled a dalwyd yn 2024/25 yw £0.852m, yn seiliedig ar bortffolio dyled cyfartalog o £24.493m ar gyfradd llog gyfartalog o 5.25%. Os bydd lefelau gwirioneddol buddsoddiadau a benthyca, neu gyfraddau llog gwirioneddol, yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd, bydd perfformiad yn erbyn y gyllideb yn gyfatebol wahanol.

## 9 Opsiynau Eraill a Ystyrir

9.1 Nid yw Canllawiau LlC na Chod CIPFA yn rhagnodi unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Cred y Trysorydd fod y strategaeth uchod yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg ac effeithiolrwydd cost. Mae rhai strategaethau amgen, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, wedi'u rhestru isod.

| Amgen | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn ystod fwy cyfyng o wrthbartïon a/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o siawns o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn fwy |
| Buddsoddi mewn ystod ehangach o wrthbartïon a/neu am gyfnodau hwy | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog ar ddyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn gan incwm buddsoddi uwch | Cydbwysedd buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith yn achos diffygdalu; fodd bynnag gallai costau llog hirdymor fod yn fwy sicr |
| Benthyciadau byrdymor neu amrywiol yn lle rhai â chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael ei wrthbwyso i raddau gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall y costau hirdymor fod yn llai sicr |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae arbedion ar log dyledion yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Llai o gydbwysedd buddsoddi yn arwain at effaith is os bydd diffygdalu; fodd bynnag gall costau llog hirdymor fod yn llai sicr |

**Atodiad A – Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose – Rhagfyr 2023**

**Tybiaethau sylfaenol:**

- Mae chwyddiant y DU a thwf cyflog yn parhau i fod yn uchel ond maent wedi lleddfu dros y ddau fis diwethaf gan arwain at ddisgwyliadau y bydd cyfraddau yn gostwng. Mae toriadau i gyfraddau yn y tymor agos yn parhau'n annhebygol, er y bydd risgiau yn cynyddu wrth i economi'r DU lithrio i ddirwasgiad.
- Mae neges yr MPC yn parhau heb newid wrth i'r Pwyllgor geisio cynnal amodau cyllidol llymach. Bydd polisi ariannol yn parhau'n dynn gan fod disgwyl i chwyddiant gymedroli i'r targed yn araf, er bod rhai mesurau cyflog a chwyddiant yn is na rhagolygon diwethaf y Banc.
- Er gwaethaf dirywiad mewn data gweithgarwch, mae economi'r DU yn parhau i fod yn wydn yn wyneb polisi ariannol tynnach. Mae data diweddar wedi bod yn feddal ond yn gymysg; mae'r ffigurau PMI mwy amserol yn awgrymu bod y sector gwasanaethau yn gwella yn dilyn Ch3 gwan. Fodd bynnag, bydd polisi tynnach yn lleihau gweithgarwch domestig ac allanol wrth i gyfraddau llog frathu.
- Mae'r galw am gyflogaeth yn llacio. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod recriwtio a thwf cyflogau yn arafu, ac rydym yn disgwyl i ddiweithdra godi ymhellach. Wrth i ddiweithdra godi a chyfraddau llog barhau'n uchel, bydd teimladau defnyddwyr yn dirywio. Felly bydd gwariant cartrefi a busnesau yn wan.
- Bydd chwyddiant yn gostwng dros y 12 mis nesaf. Ni fydd y llwybr at y targed yn llyfn, gyda phrisiau ynni uwch ac effeithiau sylfaen yn torri ar draws y duedd ar i lawr ar adegau. Bydd sylw'r MPC yn parhau ar fesurau chwyddiant sylfaenol a data cyflogau. Credwn y bydd cyfraddau polisi yn aros ar eu huchaf am 10 mis arall, neu hyd nes y bydd yr MPC yn gyfforddus bod y risg o effeithiau 'ail-rownd' pellach wedi lleihau.
- Bydd cynnal polisi ariannol mewn tiriogaeth gyfyngol cyhyd, a'r economi eisoes yn ei chael hi'n anodd, yn gofyn am lacio sylweddol yn y dyfodol i hybu gweithgarwch.
- Bydd arenillion bondiau byd-eang yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Ar hyn o bryd mae marchnadoedd yn disgwyl toriadau i gyfraddau yn yr Unol Daleithiau yn y tymor agos, a hynny wedi'i danio ychydig yn annisgwyl gan lunwyr polisi yr UD eu hunain. Mae premia tymor ac arenillion bondiau wedi profi dirywiad amlwg. Ni fyddai'n syndod gweld gwrthdroad os nad yw pwyntiau data yn cefnogi'r naratif, ond mae'r arenillion 10 mlynedd presennol yn ymddangos yn fras yn adlewyrchiad o lefel tymor canolig is ar gyfer Cyfradd y Banc.
- Mae risg uwch o bolisi cyllidol a/neu ddigwyddiadau geo-wleidyddol yn achosi anwadalrwydd sylweddol mewn arenillion.

**Rhagolwg:**

- Daliodd yr MPC gyfradd y banc ar 5.25% ym mis Rhagfyr. Credwn mai hwn yw'r uchafbwynt ar gyfer Cyfradd y Banc.
- Bydd yr MPC yn torri cyfraddau yn y tymor canolig i ysgogi economi'r DU ond bydd yn amharod i wneud hynny nes ei fod yn sicr na fydd unrhyw effeithiau ail-rownd yn parhau. Rydym yn rhagweld toriadau mewn cyfraddau o Ch3 2024 i lefel isel o tua 3% erbyn dechrau i ganol 2026.
- Mae'r risgiau uniongyrchol ynghylch Cyfradd y Banc wedi dod yn fwy cytbwys, oherwydd bod economi'r DU yn gwanhau ac effeithiau niweidiol ar chwyddiant. Mae hyn yn symud i'r ochr isaf yn y tymor byr wrth i'r economi wanhau.
- Mae arenillion giltiau hirdymor bellach yn sylweddol is. Mae Arlingclose yn disgwyl i arenillion fod yn wastad oddi yma dros y tymor byr gan adlewyrchu rhagolygon Cyfradd y Banc tymor canolig. Mae anwadalrwydd cyfnodol yn debygol.

| | Current | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 | Dec-25 | Mar-26 | Jun-26 | Sep-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 5.25 | 5.25 | 5.25 | 5.25 | 5.00 | 4.75 | 4.25 | 4.00 | 3.75 | 3.50 | 3.25 | 3.00 | 3.00 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 3-month money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 5.40 | 5.40 | 5.40 | 5.30 | 5.15 | 4.80 | 4.30 | 4.10 | 3.80 | 3.50 | 3.25 | 3.05 | 3.05 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 3.77 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.70 | 3.60 | 3.50 | 3.50 | 3.40 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.35 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 3.72 | 3.75 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.75 | 3.65 | 3.60 | 3.65 | 3.70 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 4.16 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.25 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 3.76 | 3.80 | 3.85 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.95 | 3.95 | 3.95 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |

Cyfradd Safonol PWLB = Arenillion giltiau + 1.00%
Cyfradd Sicrwydd PWLB = Arenillion giltiau + 0.80%
Cyfradd HRA PWLB = Arenillion giltiau + 0.40%
Cyfradd Banc Seilwaith y DU = Arenillion giltiau + 0.40%

**Atodiad B – Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**
Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllawiau Buddsoddi diwygiedig yn Nhachwedd 2019 sydd yn gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys yr Awdurdod hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Awdurdod yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaethau a/neu hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Awdurdod yn ystyried risgiau hirdymor i'r hinsawdd er mwyn cefnogi economi carbon isel i'r graddau y bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

**Buddsoddiadau penodol**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau penodol fel rhai:

- a fynegir mewn punnoedd sterling,
- sydd i fod i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant oni bai bod y gwrthbarti'n awdurdod lleol,
- nas diffinnir fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, ac
- a fuddsoddir gydag un o'r canlynol:
    - Llywodraeth y DU,
    - awdurdod lleol yn y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymuned, neu
    - gorff neu gynllun buddsoddi ag "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliad a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel rhai sydd â statws credyd A- neu uwch sydd yn hanu o'r DU neu wlad dramor gyda sgôr sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd y farchnad arian a chronfeydd cronedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â sgôr credyd o A- neu uwch.

**Benthyciadau:** Mae Canllawiau LlC yn diffinio benthyciad fel cytundeb llafar neu ysgrifenedig pan fo'r awdurdod yn trosglwyddo arian parod dros dro i drydydd parti, menter ar y cyd, is-endid neu gyswllt sydd yn cytuno ar ad-daliad yn unol â thelerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan mai awdurdod lleol arall yw'r trydydd parti.

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau mewn perchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd.

**Buddsoddiadau amhenodol:** Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddsoddiadau amhenodol.
**Buddsoddiadau nad ydynt yn ariannol:** Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddsoddiadau nad ydynt yn ariannol.
**Ymgynghorwyr buddsoddi:** Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae ansawdd y gwasanaethau hyn yn cael ei reoli drwy adolygu mewnol.
**Capasiti a sgiliau:** Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff proffesiynol cymwys a phrofiadol mewn swyddi uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Trysorydd, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael yn gyfrifwyr cymwys sydd â blynyddoedd lawer o brofiad.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflogi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae'r dull hwn yn fwy cost-effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i archwaeth risg.

Mae Arlingclose wedi darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio, sydd â chyfrifoldeb am adolygu gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

**Llywodraethu corfforaethol:** Adroddir ar holl weithgarwch y trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân, bob chwarter. Cyflwynir yr adroddiadau gan y Trysorydd neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau). Caiff yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, yn dilyn y cyflwyniadau.

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Gyfalaf 2024-34** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i Aelodau'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034, a darparu manylion ac esboniadau o'r Strategaeth arfaethedig.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf yw nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio ei adnoddau cyfalaf er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion corfforaethol a gwasanaeth. Mae'r adroddiad ar y strategaeth gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol, ynghyd â throsolwg o sut y rheolir risg gysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

3 Datblygwyd y Strategaeth hon ar y cyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, a'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 22 Ionawr 2024, yn ogystal â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, sydd hefyd yn cael ei chyflwyno heddiw.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

**I) gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024-2034;**

## SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Mawrth 2024. Cymeradwyodd aelodau'r pwyllgor yr adroddiad ac argymell y dylid ei gymeradwyo.

## CEFNDIR

6 Mae Cod Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf i ddangos bod penderfyniadau gwariant a buddsoddi cyfalaf yn cael eu gwneud yn unol ag amcanion y Gwasanaeth ac yn cymryd i ystyriaeth stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

7 Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau Strategaeth Gyfalaf yn 2021. Datblygwyd y strategaeth yn unol â'r canllawiau hyn.

8 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 a Chynllun Gweithredu 2024/25, i gyflawni'r egwyddorion ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

## GWYBODAETH

9 Mae'r Strategaeth Gyfalaf (y Strategaeth), a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf a ragwelir ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, a gofynion ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys, am y 3 blynedd nesaf.

10 Gwariant cyfalaf yw pan fydd yr Awdurdod yn gwario arian ar asedau, megis eiddo, neu gerbydau, neu offer a ddefnyddir am fwy na blwyddyn. Mae gan yr Awdurdod rywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, er enghraifft nid yw asedau sy'n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu a chânt eu codi ar y gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn.

11 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 drwy ddarparu adnoddau i fynd i'r afael â materion sy'n codi o un neu fwy o'r egwyddorion yn y Cynllun, yn ogystal â darparu cyllid i gynnal asedau fel eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben..

12 Mae Rheolwyr y Gwasanaeth yn 'cynnig' yn flynyddol ym mis Medi i gynnwys prosiectau yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Mae'r cynigion yn cael eu casglu gan yr Adran Cyllid a Chaffael. Derbyniwyd cynigion cychwynnol gwerth mwy na £10m ar gyfer 2024/25. Mae'r cynigion yn cael eu sgorio ar sail amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys bodloni'r egwyddorion yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, gofynion statudol, y gallu i wneud arbedion, a'u heffaith amgylcheddol.

13 Yn dilyn yr adolygiad a thrafodaethau gyda rheolwyr y gwasanaeth, cyflwynwyd cynllun cyfalaf o £5.676m i'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, sydd wedi'i grynhoi ar dudalen 8 o'r Strategaeth. Bydd y gwariant cyfalaf arfaethedig hwn yn cael ei ariannu drwy fenthyca.

14 Mae rhagor o fanylion ynglŷn â benthyca wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys, ynghyd â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys.

15 Dim ond ffynhonnell dros dro o gyllid yw dyled, gan fod yn rhaid ad-dalu benthyciadau a phrydlesi, ac felly caiff hyn ei ddisodli dros amser gan gyllid arall, fel arfer o refeniw. Gelwir cyfanswm y cyfraniadau refeniw hyn yn ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP). Disgwylir i'r tâl MRP ar gyfer 2024/25 fod yn £1.885m, gan godi i £2.601m yn 2026/27.

16 Disgwylir i gostau cyllido fod yn 5.62% o gyllideb 2024/25 gan godi i 7.47% yn 2026/27.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod prynu asedau i gefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi'i chynllunio i sicrhau bod buddsoddiad digonol mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r strategaethau'n cysylltu â'r gwaith o bennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hwy |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn (y Strategaeth) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Cafodd y Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn ei chyflwyno ddiwethaf i'r Awdurdod ym mis Ionawr 2021, ac yn unol ag arferion da, mae wedi bod yn destun adolygiad.

3. Mae'r Strategaeth wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau cyfredol.

**SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

4. Adolygwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio mewn cyfarfod ar 18 Mawrth 2024, ac argymhellodd yr Aelodau ei gymeradwyo

**ARGYMHELLIAD**

5. Bod Aelodau:

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn sydd yn Atodiad 1, fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod.**

**CEFNDIR**

6. Mae'r Awdurdod yn wahanol i awdurdodau lleol eraill oherwydd mae'n cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, felly nid yw'n awdurdod sy'n codi praesept nac yn bilio.

7. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu 'Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009' er mwyn cydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai'r Awdurdod yn gofyn am gyfraniad ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn wedi darparu sail statudol i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru allu dal cronfeydd wrth gefn.

8. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reoli materion ariannol yr Awdurdod, ac mae wedi sicrhau bod modd lleihau'r angen i ddiwygio'r cyfraniadau mewn unrhyw flwyddyn (h.y. osgoi ardoll atodol ar Gynghorau cyfansoddol).

**GWYBODAETH**

9. Mae'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'n nodi manylion y cronfeydd sy'n cael eu dal ac mae'n dogfennu'r broses ar gyfer adolygu'r cronfeydd ac adrodd yn eu cylch.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Drwy ddal cronfeydd wrth gefn, gall yr Awdurdod gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys allu parhau i fod ar gael pryd a ble y mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy presennol yw £7.821m (31 Mawrth 2023) |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. Gallai hyn gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer ymrwymiadau sy'n hysbys. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys symudiadau yn y cronfeydd. |

# Strategaeth Cronfeydd Ariannol
# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Nid yw'r ddogfen hon yn cael ei rheoli ar ôl iddi gael ei hargraffu.
Cyn ei defnyddio, mae'r sawl sy'n ei defnyddio yn gyfrifol am wirio
mai dyma'r fersiwn gyfredol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 2.0 | Adolygiad nesaf: 31/03/2027 | Strategaeth Cronfeydd Ariannol |
| Statws: | Drafft | Dyddiad cyhoeddi: i'w gadarnhau | |

## 1.0 Y CRONFEYDD SY'N CAEL EU DAL

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn cadw cronfeydd wrth gefn yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n arferol. Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn ceisio osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg cyffredinol yn y gyllideb refeniw net, oherwydd mae sefyllfa ariannol o'r fath yn anghynaliadwy.

Ni fydd yr Awdurdod yn cadw cronfeydd rhag ofn, ac eithrio'r rhai yr adroddir eu bod yn gronfeydd ariannol wrth gefn.

Yn ogystal â chronfa gyffredinol, bydd yr Awdurdod hefyd yn dal cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau penodol, pan fo angen hynny er mwyn cwrdd â chostau cyfyngedig un-tro sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau neu fentrau penodol, neu grantiau penodol.

## 2.0 ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD

Wrth adrodd ynghylch cronfeydd yn y datganiadau ariannol, byddwn yn bodloni'r codau ymarfer cyfrifo cyfredol sy'n berthnasol i'r Awdurdod.

Er mwyn sicrhau tryloywder a chraffu, bydd adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac sy'n cynnwys rhagor o fanylder, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod wrth gytuno ar y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, ac wrth adrodd ynghylch yr alldro ariannol am y flwyddyn ariannol flaenorol.

Wrth adrodd ynghylch yr alldro ariannol am y flwyddyn flaenorol, caiff yr wybodaeth ganlynol ei darparu:

- Pwrpas pob cronfa
- Y sail ar gyfer asesu digonolrwydd
- Trosglwyddiadau i mewn ac allan o gronfeydd

## 3.0 CYFRIFOLDEB A DIRPRWYO

Mae'r gwaith o greu, dileu, asesu digonolrwydd y cronfeydd, a'r throsglwyddiadau i mewn/allan wedi'i ddirprwyo i Swyddog Adran 151 (Trysorydd yr Awdurdod), mewn ymgynghoriad gyda'r PSTC Cyllid ac Adnoddau a gyda'r Pennaeth Cyllid.

Bydd asesiad o ddigonolrwydd y cronfeydd o leiaf unwaith y flwyddyn, fel rhan o broses cau'r cyfrifon.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn adrodd i'r Awdurdod yn unol â'r Strategaeth hon.

## 4.0 SWYDDOGAETH Y SWYDDOG ADRAN 151

Nid oes gan Weinidogion Llywodraeth Cymru unrhyw rôl na grym i bennu na chynghori ar y lefel briodol o gronfeydd sydd gan awdurdodaulleol unigol (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub).

Mae'n fater i'w benderfynu ar lefel y sefydliad, lle rhaid ystyried y risgiau, yr amgylchiadau a'r cynlluniau sy'n bodoli ar yr adeg hynny.

O fewn y fframwaith statudol a rheoleiddiol presennol, cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 (Trysorydd yr Awdurdod) yw cynghori'r Awdurdod ynghylch lefelau'r cronfeydd dylid eu cadw, ac i sicrhau bod protocolau clir yn bodoli ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio.

## 5.0 CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod yn cadw Cronfeydd Defnyddiadwy ar gyfer tri prif bwrpas:

- Balans digonol i helpu i arbed rhag effaith llif arian anwastad ac i osgoi gorfod benthyca'n ddiangen dros dro – mae hyn yn rhan o'r cronfeydd cyffredinol;

- Cronfa wrth gefn i leddfu effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau – mae hyn hefyd yn rhan o gronfeydd cyffredinol; neu

- Ffordd o gynyddu arian a elwir yn gronfeydd wedi'u clustnodi, neu cronfeydd penodol, er mwyn cwrdd â gofynion a ragwelir - rhoddir cyfrif ar wahân i rhain, ond yn gyfreithiol maent yn rhan o Gronfa Gyffredinol yr Awdurdod.

| Categori o Gronfa a Glustnodwyd | Rhesymeg |
|---|---|
| Symiau a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau mawr, megis datblygiadau cyfalaf neu brynu asedau, neu i ariannu gwaith adsefydlu pwysig a blaenoriaethau'r Gwasanaeth. | Pan fo gwariant wedi'i gynllunio mewn cyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol, peth darbodus yw neilltuo adnoddau ymlaen llaw. |
| Cronfeydd yswiriant. | Lle nad oes unrhyw sail statudol, adroddir ar symiau sy'n cael eu dal i gwrdd ag ymrwymiadau posibl ac annisgwyl fel cronfeydd a glustnodwyd, pan nad yw'r ymrwymiadau hyn yn bodloni'r diffiniad o 'ddarpariaeth' o dan ofynion Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37, sef *Darpariaethau, Asedau ac Ymrwymiadau Annisgwyl.* |
| Cronfeydd ar gyfer grantiau refeniw a rhoddion heb eu gwario. | Pan nad oes unrhyw amodau i grantiau refeniw neu roddion, neu pan fo'r amodau wedi cael eu bodloni a'r gwariant heb ddigwydd eto, caiff y symiau eu dal fel cronfeydd a glustnodwyd. |

Gall yr Awdurdod hefyd ddal y cronfeydd defnyddiadwy canlynol -

Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn

Mae'r gronfa hon yn dal derbyniadau ar ôl gwerthu asedau hir-dymor, ac ni chaiff y gronfa ei defnyddio heblaw ar gyfer y pwrpasau a nodir yn y "Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 fel y'u diwygiwyd", sef:

- I dalu gwariant cyfalaf;
- I ad-dalu prifswm unrhyw swm a fenthyciwyd; neu
- I dalu unrhyw rwymedigaeth ar gyfer trefniant credyd, heblaw am rwymedigaeth rhaid eu rhoi ar gyfrif refeniw, yn unol ag arferion priodol.

Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio

Bydd y gronfa hon yn dal adnoddau cyfalaf (o grantiau cyfalaf) sydd wedi'u cydnabod fel incwm ac nad ydynt eto wedi'u defnyddio fel gwariant cyfalaf.

Caiff yr Awdurdod hefyd wneud darpariaeth ar gyfer gwariant yn unol â'r diffiniadau llym sydd yn y codau ymarfer ar gyfer cyfrifo. Mae'r rhwymedigaethau penodol ar gyfer rhain yn bodoli ar ddyddiad y fantolen a gellid gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Roedd crynodeb o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (MTRS) a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024 [MTFS 2009-12 (gov.wales)]

**6.0 CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY**

Mae cronfeydd annefnyddiadwy yn deillio o addasiadau cyfrifyddu technegol yn sgil rhyngweithio deddfwriaeth ac arferion cyfrifo priodol. Gellir sefydlu'r rhain naill ai er mwyn cofnodi enillion ailbrisio, neu fel addasiad er mwyn cysoni gofynion cyfrifo a gofynion statudol.

Nid yw'r cronfeydd hyn wedi'u cefnogi gan adnoddau, ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Gweler isod ddisgrifiad o'r cronfeydd annefnyddiadwy cyffredin:

| | |
|---|---|
| Cronfa Ailbrisio | Mae'r gronfa hon yn cofnodi enillion heb eu gwireddu yng ngwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae'r gronfa'n cynyddu pan fo asedau'n cael eu hailbrisio am i fyny, ac mae'n gostwng wrth i asedau gael eu dibrisio, neu pan fo asedau'n cael eu hailbrisio am i lawr, neu pan geir gwared ag asedau. Dim ond enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa, sef y dyddiad pryd cafodd y Gronfa ei chreu. Mae enillion wedi'u cronni cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cydgrynhoi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | Mae'r gronfa hon yn cysoni'r gwahanol gyfraddau y mae'r asedau yn cael eu dibrisio o dan arferion cyfrifyddu priodol, ac yn cael eu hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf. Mae'n ofyn statudol bod y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei bennu gan y system rheolaethau cyfalaf. Er enghraifft, mae'r balans credyd ar y Cyfrif yn dangos bod yr Awdurdod yn gyffredinol wedi ariannu buddsoddiadau cyfalaf cyn derbyn buddion y buddsoddiadau hynny. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad pryd cafodd y Gronfa Ailbrisio ei chreu er mwyn dal enillion o'r fath. |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau | Mae'r gronfa hon yn cysoni'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn i wahanol gynlluniau pensiwn statudol, yn unol â gofynion y cynlluniau hynny, a'r newid net yn rhwymedigaeth ariannol yr Awdurdod dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 parthed *Buddion Cyflogeion,* ar gyfer yr un cyfnod. Gwneir trosglwyddiad i mewn neu allan o'r gronfa bensiynau er mwyn sicrhau bod y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu'r swm sydd angen ei gyllido . Er enghraifft, mae balans debyd yn y Gronfa yn dangos bod awdurdod wedi gwneud ymrwymiadau i ariannu pensiynau y mae'r Llywodraeth wedi caniatáu iddo ariannu o gyfraniadau i'w gwneud mewn blynyddoedd i ddod. |

| | |
|---|---|
| Cyfrif Absenoldebau Cronedig | Mae'r cyfrif hwn yn cynnwys gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall yn y Gronfa Gyffredinol o gronni hawl i absenoldebau taladwy na chymerwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol wedi'u cario drosodd ar 31 Mawrth. Mae gofyn statudol i niwtraleiddio'r effaith ar y Gronfa Gyffredinol drwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif. |
| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | Mae'r cyfrif hwn yn cysoni'r gwahanol gyfraddau y mae enillion a cholledion (megis premiwm ar ad-dalu dyled yn gynnar) yn cael eu cydnabod dan arferion cyfrifo priodol, lle rhaid iddynt, dan statud, ddod o'r Gronfa Gyffredinol. Er enghraifft, mae'r balans debyd ar y Cyfrif yn dangos bod yr Awdurdod wedi cael treuliau ar fenthyciadau ac mae'r Llywodraeth wedi caniatáu iddo wasgaru'r rheini dros flynyddoedd i ddod. |

Gellir hefyd greu cronfeydd yn y dyfodol pan fo datblygiadau mewn dulliau cyfrifo yn arwain at wahaniaethau mewn amseru rhwng yr incwm a'r gwariant, dan arferion cyfrifo priodol ac o dan statud neu reoliad.

## 7.0 ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r *Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod), sy'n seiliedig ar y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), yn pennu'r gofynion adrodd ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd yn cyflwyno'r symudiad yng nghronfeydd yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy ac yn gronfeydd annefnyddiadwy.

Mae'r Cod yn argymell bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu hadrodd ar wyneb ddalen y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Mae'r gyfundrefn adrodd statudol a rheolaeth ariannol effeithiol yn tanategu'r angen am drefniadau clir a thryloyw i adrodd ar gronfeydd wrth gefn, ac mae arfer dda yn awgrymu y dylid adrodd yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob cronfa a glustnodwyd:

- y rheswm dros y gronfa;
- sut a phryd gellir defnyddio'r gronfa;
- y gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r gronfa; a
- mecanweithiau adolygu.

Dylai'r adroddiad ar y gyllideb i'r Awdurdod gynnwys y canlynol:

- unrhyw ddefnydd o gronfeydd neu ychwanegu atynt, gan gynnwys unrhyw achos penodol o ddefnyddio cronfeydd er mwyn cwrdd â chostau rheolaidd;
- datganiad gan y Swyddog Adran 151 ynghylch digonolrwydd y balansau cyffredinol a'r darpariaethau.

## 8.0 PA MOR DDIGONOL YW'R CRONFEYDD

Er mwyn asesu digonolrwydd y cronfeydd wrth osod y gyllideb, bydd y Swyddog Adran 151 (Trysorydd yr Awdurdod, mewn ymgynghoriad gyda'r PSTC Cyllid ac Adnoddau, a gyda'r Pennaeth Cyllid) yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Bydd yr asesiad o'r risgiau yn cynnwys risgiau allanol, megis materion a allai effeithio ar barhad busnes, yn ogystal â risgiau mewnol, er enghraifft y gallu i allu gwireddu arbedion a gynllunnir.

Mewn termau ariannol, bydd y risgiau canlynol yn cael eu hystyried:

| | |
|---|---|
| Ymdrin â chwyddiant a chyfraddau llog | • Sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod<br>• Cynnydd ym mhrisiau rhai nwyddau, ac a yw'r cronfeydd yn ddigonol i ddelio ag unrhyw amrywiadau annisgwyl mewn prisiau.<br>• Sut bydd newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio ar fenthyciadau neu incwm, yng nghyd-destun Strategaeth Rheoli Trysorlys a gytunwyd. |
| Amcangyfrifon o lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf | • Hanes yr Awdurdod o ran rheoli'r gyllideb a rheolaeth ariannol, yn cynnwys cadernid cynlluniau tymor-canolig.<br>• Sut mae'r farchnad eiddo yn effeithio ar dderbyniadau, o ran yr amseriad a'r swm. |
| Ymdrin â phwysau oherwydd galw | • Gallu'r Awdurdod i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, a'r strategaeth ar gyfer rheoli'r galw a'r modd o ddarparu gwasanaethau yn y tymor hir. |
| Ymdrin ag arbedion effeithlonrwydd/enillion cynhyrchiant arfaethedig | • Cryfder yr wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd. |
| Risgiau ariannol sydd ymhlyg mewn unrhyw bartneriaethau ariannu newydd arwyddocaol, trefniadau contractau allanol sylweddol, neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | • Gallu'r Awdurdod i drosglwyddo cyllideb, a'r gweithdrefnau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer tanwariant/gorwariant, ar lefel cyllideb yr awdurdod ac ar lefel adrannol.<br>• Mesurau rheoli risg mewn partneriaethau, gan gynnwys ystyried sut caiff risg ei ddyrannu.<br>• Darpariaethau mewn contractau wedi'u dylunio i ddiogelu sefyllfa'r awdurdod pe bai problemau'n deillio o gontractau allanol. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae cronfeydd wrth gefn, grantiau llywodraeth ac arian arall ar gael i ddelio â digwyddiadau annisgwyl pwysig, a pha mor ddigonol yw'r darpariaethau | • Defnyddir asesiadau risg wrth gydbwyso lefelau premiymau yswiriant a chronfeydd wrth gefn. |
| Yr hinsawdd ariannol cyffredinol y mae'r awdurdod yn agored iddo | • Ffactorau allanol, megis newidiadau mewn ariannu yn y dyfodol, y tirlun gwleidyddol, ac amodau economaidd y byd. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Pwyllgor Safonau Adroddiad Blynyddol 2023/24** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Derbyn adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae pedwerydd ar bymthegfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'i waith yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i aelodau:

i) Derbyn adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad blynyddol, sef cyfrif y Pwyllgor o'i weithgareddau ei hun dros y 12 mis diwethaf, wedi cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio.

## CEFNDIR

5 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cynhyrchu adroddiadau blynyddol ers iddo gael ei sefydlu. Ers 2021 mae hefyd wedi bod yn ddyletswydd statudol i lunio adroddiad o'r fath.

## GWYBODAETH

6 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y flwyddyn 2023/24, ynghlwm yn Atodiad 1.

7 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gynhyrchu adroddiadau o'r fath sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Bydd yr Awdurdod yn nodi bod yr adroddiad drafft yn cydymffurfio â gofynion y canllawiau o ran y cynnwys ddylai fod mewn adroddiadau o'r fath.

8 Mae'r Pwyllgor yn parhau i adolygu'r codau a'r protocolau yn y Cyfansoddiad gan wneud argymhellion lle mae angen eu diweddaru. Yn ystod y flwyddyn mae wedi argymell diweddariadau i'r protocol rhoddion a lletygarwch, y protocol ar gysylltiadau rhwng aelodau/swyddogion a Chod Ymddygiad Cynghorwyr.

9 Mae'r Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW), yn ogystal â'i hadroddiad blynyddol ac adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru. Pan fo'r dogfennau hyn yn cynnwys gwersi a allai helpu i lywio cynghorwyr i ffwrdd o ymddygiad gwael, mae'r Pwyllgor, drwy'r clerc, wedi rhannu'r negeseuon hynny.

10 Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro presenoldeb aelodau ar ran yr awdurdod ac unwaith eto, gan weithredu trwy'r clerc, mae'n rhoi gwybod i gynghorwyr lle mae eu presenoldeb wedi gostwng o dan 50%.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2023/24 | Gellir cynhyrchu'r adroddiad blynyddol o fewn y gyllideb |
| Cyfreithiol | Mae gan y Pwyllgor ddyletswydd o dan adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2021 i lunio adroddiad blynyddol, y mae'n rhaid i'r awdurdod tân ei ystyried o fewn 3 mis i'w dderbyn. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Cynhyrchwyd yr adroddiad ar ffurf ddwyieithog |
| Risgiau | Dylai gwaith y Pwyllgor Safonau a ddisgrifir yn ei adroddiad blynyddol helpu i leihau'r risg y bydd aelodau'r awdurdod yn ymddwyn mewn modd sy'n anghyson â'r cod ac felly gydag arferion gorau. |

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU AR GYFER 2023/24**

**Cefndir**

Dyma bedwerydd ar bymthegfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Pwyllgorau Safonau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn a'u bod yn paratoi adroddiad ar eu gweithgaredd i'w ystyried gan yr Awdurdod.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, lle mae caniatâd statudol i wneud hynny, mae'n derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu'n goruchwylio ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

**Aelodaeth**

Ni fu unrhyw newid o ran aelodaeth y Pwyllgor ers i gynghorwyr newydd gael eu penodi ar ôl yr etholiadau yn 2022. Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

<u>Aelodau Annibynnol</u>
Sally Ellis 01/01/22 – 31/12/26 (yn gwasanaethu am ail dymor)(Dirprwy Gadeirydd)
Julia Hughes 01/01/22 – 31/12/26 (yn gwasanaethu am ail dymor) (Cadeirydd)
Gill Murgatroyd 01/09/23 – 31/08/27 (yn gwasanaethu am ail dymor)
Gareth Pritchard 01/09/23 – 31/08/27 (yn gwasanaethu am ail dymor)

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Marion Bateman (20/06/2022 tan etholiadau nesaf y cyngor)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (20/06/2022 tan etholiadau nesaf y cyngor)

**Presenoldeb**

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithiol ar y dyddiadau canlynol gyda'r aelodau a enwyd yn bresennol:

13 Hydref 2023 – yn bresennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gareth Pritchard, Gill Murgatroyd, y Cynghorydd John Brynmor Hughes

14 Chwefror 2024 – yn bresennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gareth Pritchard, Gill Murgatroyd

**Materion a Drafodwyd**

Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2023, bu'r Pwyllgor yn adolygu:

- Presenoldeb Aelodau'r ATA mewn cyfarfodydd. Nodwyd bod methu â mynychu cyfarfodydd yn fater o bwys i'r Awdurdod gan ei fod yn lleihau ei gapasiti ac yn creu bylchau yn nealltwriaeth yr Aelodau a all gymryd amser i'w goresgyn. Gofynnir yn ysgrifenedig i'r aelodau hynny sydd â phresenoldeb o 50% neu is, os oes unrhyw reswm pam fod eu presenoldeb mor isel a gofynnir hefyd am ymrwymiad i wella. Mae unrhyw amgylchiadau lliniarol yn cael eu hystyried yn ystod y broses hon.
- Rhoddwyd polisi rhoddion a lletygarwch yr Awdurdod mewn fformat newydd a'i gymhwyso i bob swyddog, gan gynnwys diffoddwyr tân. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r ddogfen gael ei hadolygu unwaith y flwyddyn gan uwch swyddog, a chytunwyd ar hynny.
- Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau blynyddol Panel Dyfarnu Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ogystal â chanfyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ar ei gwefan i weld a oedd gwersi defnyddiol i'w dysgu. Anfonwyd neges at yr holl gynghorwyr ynglŷn â pheryglon mynychu cyfarfodydd wrth yrru.
- Adolygodd y pwyllgor ei gyfres o ymweliadau arsylwi â chyfarfodydd yr awdurdod. Gwelodd aelodau'r Pwyllgor lawer o enghreifftiau o gadeirio da a chydymffurfio â'r cod. Gwnaeth nifer o argymhellion i helpu i wella ymlyniad. Daeth i'r casgliad eu bod wedi bod o werth, a bydd ymweliadau tebyg yn cael eu cynnal mewn dwy flynedd.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 14 Chwefror 2024. Yn y cyfarfod hwn, bu'r Aelodau yn ystyried y materion canlynol:

- Adolygiad Penn o'r Fframwaith Moesegol - roedd yr adroddiad gan Richard Penn yn cynnwys argymhellion amrywiol ar newidiadau y byddai angen deddfwriaeth i'w gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn rhai o'r argymhellion hynny ac nid oes disgwyl deddfwriaeth tan dymor nesaf y Senedd;
- Adolygiad treigl o'r Cod Ymddygiad Aelodau (y Cod) – ystyriodd y Pwyllgor newidiadau gwirfoddol i'r cod y gellid eu hystyried yng ngoleuni Adolygiad Penn, a gofynnwyd am ragor o fanylion cyn dod i gasgliad;
- Adolygiad treigl o Brotocol Aelodau/Swyddogion – roedd y Pwyllgor eisiau rhagor o fanylion am yr ystod o bobl (gweithwyr, contractwyr neu weithwyr asiantaeth) y dylid eu hystyried o fewn cwmpas y protocol; a
- Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad i gadarnhau bod yr aelodau hynny y bu'n rhaid cysylltu â hwy am eu presenoldeb ar ôl cyfarfod mis Hydref bellach wedi cynyddu eu lefelau presenoldeb uwchlaw 50%.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried adborth gan gadeiryddion y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau. Mae'r fforwm hwnnw'n gyfle i rannu arfer da ac adeiladu consensws ynghylch meysydd gwaith cyffredin. Mae'r safbwyntiau a fynegir yno yn cael eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn trafod materion fel diwygiadau i'r Cod.

## Hyfforddiant

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn cynnal hyfforddiant ym mhob un o'i gyfarfodydd ar faterion sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl.

## Blaengynllun Gwaith

Mae'r Pwyllgor wedi gosod blaenraglen flynyddol iddo'i hun er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac yn ystyried yr holl eitemau sydd angen iddo eu cwmpasu o fewn blwyddyn.  Mae eitemau sefydlog rheolaidd yn cynnwys Ein Canfyddiadau o wefan yr Ombwdsmon, adborth o'r fforwm cenedlaethol, presenoldeb Aelodau yn ogystal â hyfforddiant ar ei rolau a'i gyfrifoldebau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gosod rhaglen aml-flwyddyn iddo'i hun i adolygu'r codau a'r protocolau sydd o fewn ei gylch gorchwyl. Mae pob un yn cael ei ystyried o leiaf unwaith yn ystod tymor pob Awdurdod. Mae'r rhaglen honno wedi dechrau eto yn dilyn yr etholiadau yn 2022.

## Cwynion yn erbyn Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Doedd dim cwynion am Aelodau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, nid oedd unrhyw atgyfeiriadau o dan y broses datrys leol nac at Banel Dyfarnu Cymru na'r Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad mewn perthynas â thoriad honedig o'r cod.

## Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau i Hybu Ymddygiad Moesegol

Nid yw'r Awdurdod yn rhannu ei aelodaeth yn ôl grwpiau gwleidyddol. Fodd bynnag, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â Chadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Pwyllgor yn ychwanegu gwerth.

## Goblygiadau Ariannol

Caiff y gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau ei rheoli o dan un pennawd cyllideb ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Mae gan Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor hawl i hawlio costau yn ôl ar gyfer mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau. Ar gyfer mynychu cyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol hon, cafodd cyfanswm o £1,213 ei hawlio.

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell y dylai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru nodi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.

Canllawiau Statudol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Statudol i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â safonau ymddygiad (LlC23-25)

## Mehefin 2023

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47710, ISBN digidol 978-1-83504-117-8

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Canllawiau Statudol i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â safonau ymddygiad

## Y cyd-destun polisi

1. Sefydlodd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fframwaith statudol i hybu a chynnal safonau ymddygiad moesegol uchel gan aelodau a gweithwyr awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae 'awdurdod perthnasol' at y diben hwn yn cynnwys Awdurdod Tân ac Achub ac Awdurdod Parc Cenedlaethol.

2. Mae'r fframwaith yn cynnwys y deg egwyddor gyffredinol o ymddygiad ar gyfer aelodau (sy'n deillio o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' yr Arglwydd Nolan), a nodir isod:

    - Anhunanoldeb;
    - Gonestrwydd;
    - Uniondeb a phriodoldeb;
    - Dyletswydd i gynnal y gyfraith;
    - Stiwardiaeth;
    - Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau;
    - Cydraddoldeb a pharch;
    - Bod yn agored;
    - Atebolrwydd;
    - Arweinyddiaeth.

3. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol statudol ("y Cod Enghreifftiol") (fel sy'n ofynnol o dan adran 50 o Ddeddf 2000), sy'n gosod cyfres o safonau gofynnol y gellir eu gorfodi ar gyfer y ffordd y dylai aelodau ymddwyn, yn rhinwedd eu swydd ac (mewn rhai achosion) mewn rhinwedd bersonol hefyd. Oherwydd y gall y Cod Enghreifftiol gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd, rhaid i'r aelodau ymgyfarwyddo ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy.

# Canllawiau Statudol ar Swyddogaethau Pwyllgorau Safonau

## Statws y canllawiau hyn

4. Dyroddir y canllawiau hyn o dan adran 54(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) fel y'i diwygiwyd gan adran 63(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

5. Daeth y ddyletswydd ar awdurdodau perthnasol i roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i rym ar 1 Mai 2015.

## Diben y canllawiau hyn

6. Mae pwyllgorau safonau lleol yn chwarae rhan bwysig i helpu aelodau, yn unigol ac ar y cyd, i ddatblygu a chynnal diwylliant sy'n arddel safonau ymddygiad uchel .

7. Yn unol ag adran 53 o Ddeddf 2000, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub ac awdurdod Parc Cenedlaethol sefydlu pwyllgor safonau.

8. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgor safonau o dan adran 54(1) o Ddeddf 2000 yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdod perthnasol a'u cynorthwyo i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod ("Cod yr Awdurdod").

9. At hynny, mae gan bwyllgor safonau swyddogaethau penodol hefyd o dan adran 54(2) o Ddeddf 2000, sef:

   - cynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu ddiwygio cod ymddygiad;
   - monitro gweithrediad Cod yr Awdurdod;
   - darparu cyngor a hyfforddiant, neu drefnu hyfforddiant, ar faterion sy'n ymwneud â Chod yr Awdurdod.

10. Agwedd bwysig ar drefniadau llywodraethu yw'r dull gweithredu o ran rhoddion a lletygarwch. Er bod cefnogaeth gan rai i ddefnyddio un dull i Gymru gyfan, rydym o'r farn mai mater i awdurdodau unigol ymdrin ag ef yw hwn. Byddem yn disgwyl i bwyllgorau safonau adolygu'n rheolaidd y dull a ddefnyddir mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch a'r defnydd o drothwyon. Byddem yn argymell y dylid cynnwys y mater hwn yn adroddiadau blynyddol pwyllgorau safonau. Yn ogystal, ystyrir ei fod yn fater a fyddai'n cael ei drafod fel rhan o'r drefn arferol mewn cyfarfodydd rheolaidd o Awdurdodau Tân ac Achub neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled Cymru.

## Dyletswydd pwyllgor safonau i wneud adroddiad blynyddol

### Statws y canllawiau hyn

11. Dyroddir y canllawiau hyn o dan adran 4(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fel y'i diwygiwyd gan adran 68(3c) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

### Diben

12. Mae adran 63(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn mewnosod adran 56B yn Neddf 2000 sy'n gosod gofyniad ar bwyllgorau safonau ym mhob awdurdod perthnasol i wneud adroddiad blynyddol i'r awdurdod dan sylw.

13. Fel gofynion sylfaenol, rhaid i'r adroddiad wneud yr hyn a ganlyn:

- disgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
- cadarnhau bod protocol lleol ar waith ar gyfer datrys cwynion am safonau ymddygiad aelodau, a darparu asesiad o'i effaith. Os na fabwysiadwyd protocol lleol, rhaid i'r pwyllgor safonau ystyried a fyddai mabwysiadu protocol o'r fath yn cynorthwyo ei swyddogaethau mewn perthynas â hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol;
- cynnwys dadansoddiad o gwynion am safonau ymddygiad aelodau. Rhaid i'r dadansoddiad hwn gynnwys gwybodaeth am nifer yr aelodau sydd wedi bod yn destun cwyn a gadarnhawyd, ac a oeddent wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar God yr Awdurdod ai peidio, cyn neu ar ôl i'r gŵyn ddod i law;
- cynnwys crynodeb o'r adroddiadau a'r argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwilio i achosion honedig o dorri Cod yr Awdurdod, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor;
- cynnwys crynodeb o'r hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri Cod yr Awdurdod;
- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i ddarparu ar hyfforddiant i bob aelod a sut y gweithredwyd hynny.

14. Efallai y bydd y pwyllgor yn dymuno adrodd ar nifer yr achosion a ystyrir o dan brosesau datrys yn lleol hefyd. Byddai hyn yn helpu i gasglu data ar sail "Cymru gyfan", ynghylch materion nad ydynt yn cyrraedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

15. Mae’r ffyrdd yr eir ati i reoli a monitro rhoddion a lletygarwch yn faterion sensitif yn aml. Argymhellir bod y dull o ymdrin â hyn yn cael ei adolygu a'i gytuno o fewn awdurdodau unigol a bod yr adolygiad rheolaidd o'r trothwyon ar gyfer datgan rhoddion, lletygarwch, budd materol neu fantais, yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Bydd hyn yn cynorthwyo o ran tryloywder y trefniadau.

16. Diben y gofyniad i wneud adroddiad blynyddol yw sicrhau bod aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn adrodd ar safonau ymddygiad, ac yn eu ystyried, mewn modd rheolaidd a chyson. Hybu perchenogaeth yn lleol ac annog aelodau i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau safonau ymddygiad uchel yn eu hawdurdod yw’r bwriad. I'r perwyl hwn, mae adran 56B(6) yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdod perthnasol i ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wnaed gan ei bwyllgor safonau o fewn tri mis i'w dderbyn. Ceir cofnod cyhoeddus o ystyriaeth yr awdurdod o adroddiad yng nghofnodion cyhoeddedig y cyfarfod.

17. Dylai'r pwyllgor safonau ystyried a oes gwelliannau y gellir eu gwneud i gryfhau safonau ymddygiad aelodau. Gall hyn gynnwys argymhellion am faterion megis mandadu hyfforddiant ynghylch cydraddoldebau a'r cod ymddygiad enghreifftiol.

18. Byddai’n arfer da i bwyllgorau safonau rannu eu Hadroddiadau Blynyddol ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 16i**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Ebrill 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adolygiad Treigl o'r Cod Ymddygiad Cynghorwyr** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Adolygu Cod Ymddygiad y cynghorwyr (y Cod) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol, yn enwedig yng ngoleuni'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad Penn.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn 2021 gwnaeth Adolygiad Penn, ymhlith pethau eraill, argymhellion ar gyfer newidiadau i God Ymddygiad y cynghorwyr. Mae'r Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) wedi ystyried yr argymhellion ac yn awgrymu bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gwneud nifer o newidiadau gwirfoddol.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i aelodau:

i) Gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o fewn y gwaharddiad ar wahaniaethu; a
ii) Diwygio'r gofyniad i adrodd am ymddygiad troseddol gan eraill i gynnwys hefyd rhoi gwybod am eich hun pan fo cynghorydd yn cael euogfarn (ac eithrio hysbysiad cosb benodedig)

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen gan yr Aelodau.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Pwyllgor yn adolygu pob cod a phrotocol unwaith yn ystod tymor pob Awdurdod i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorwyr o dan a.52 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac felly mae'r ddogfen yn parhau'n berthnasol.

6 Yn 2021 comisiynwyd Richard Penn (cyn-brif weithredwr awdurdod lleol a chyn-gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith moesegol, h.y. Cod Ymddygiad cynghorwyr a'r mecanweithiau i'w gefnogi a'i orfodi.

7 Gwnaeth yr adroddiad sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw ("Adolygiad Penn") rai argymhellion ar gyfer newidiadau i'r model cenedlaethol y mae Cod Ymddygiad cynghorwyr yr Awdurdod yn seiliedig arno (y cod). Mae'r model cenedlaethol hwnnw'n ddogfen statudol, a bydd angen deddfwriaeth i wneud newidiadau i'r model hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu ond nid tan dymor nesaf y Senedd, h.y. ar ôl 2026. Gall yr Awdurdod, os yw'n dymuno, fabwysiadu rhai neu'r cyfan o'r argymhellion yn wirfoddol nawr, ar yr amod ei fod yn fodlon na fydd hynny'n gwneud y cod yn llai beichus na'r model cenedlaethol.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r cod model cenedlaethol yn cynnwys gwaharddiad ar wahaniaethu. Fodd bynnag, cyhoeddwyd y model cenedlaethol yn 2008, hynny yw cyn Deddf Cydraddoldeb 2010, ac nid yw'n cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf honno. Roedd Adolygiad Penn yn argymell y dylai'r cod gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig fel ei fod yn gyson â'r Ddeddf. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Awdurdod yn ymestyn y gwaharddiad yn y cod i gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig.

9 Mae bwlch hefyd o fewn y Cod ar hyn o bryd. Mae'n ofynnol i gynghorwyr roi gwybod am ymddygiad gan eraill y maent "yn credu'n rhesymol ei fod yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys ymddygiad troseddol". Nid yw'n cynnwys rhwymedigaeth debyg i roi gwybod am eu hymddygiad troseddol eu hunain. Mae yna egwyddor gyfreithiol bwysig na ellir gofyn i berson argyhuddo ei hun, ond bu sefyllfaoedd lle mae cynghorydd wedi ei gael yn euog o drosedd heb i'w gyngor/awdurdod fod yn ymwybodol o'r euogfarn. Pe bai rhwymedigaeth ar rywun i roi gwybod am ymddygiad troseddol ei hun yn dilyn euogfarn, yna:

a. byddai'n osgoi sefyllfa o gynghorydd yn argyhuddo'i hun; a
b. byddai'n osgoi sefyllfa o'r gofyniad yn cael unrhyw effaith ôl-weithredol

**10** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu y gallai fod oedi hir rhwng honiadau diogelu neu honiadau difrifol eraill yn cael eu gwneud yn erbyn cynghorydd ac achos llys/euogfarn. Byddai'r gweithdrefnau diogelu yn ystyried a oedd angen cymryd camau mewn perthynas â chynghorydd ac a fyddai angen gofyn i'r Ombwdsmon geisio gorchymyn atal dros dro.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2023/24 | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyfreithiol | Rôl y Pwyllgor o dan adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yw:<br>(a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod; a<br>(b) cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yn berthnasol yn gyfartal i bob Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl.<br>Bydd angen deddfwriaeth ar argymhelliad v fel sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw ymyrraeth â'r hawl i ryddid mynegiant gwleidyddol. |
| Risgiau | Y risg o fabwysiadu newidiadau nawr yw, pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi deddfwriaeth, efallai na fydd cod yr Awdurdod yn cyd-fynd â hynny. Yna byddai angen diwygio pellach i gydymffurfio â'r model cenedlaethol. |

## COD YMDDYGIAD YR AELODAU

## RHAN 1
## DEHONGLI

**1**.—(1) Yn y cod hwn —

ystyr "aelod cyfetholedig" mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond —

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno, ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "cyfarfod" yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(d) lle mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau pan fo aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer un o swyddogaethau awdurdod;

mae "aelod" yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "cymdeithas gofrestredig" yw cymdeithas, ac eithrio cymdeithas sydd wedi'i chofrestru fel undeb credyd, sydd —

(a) yn gymdeithas gofrestredig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 1(1) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014; neu

(b) yn gymdeithas sydd wedi'i chofrestru neu y bernir ei bod wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "awdurdod perthnasol" yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(d) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn berthnasol iddo,

(e) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "chi" yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol; ac

ystyr "eich awdurdod" yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

(2) mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; ac

(b) ystyr "pwyllgor safonau" yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r fwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**RHAN 2**
**DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

**2**.—(1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(d) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â Chymru.

**3**. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol mae'n rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

**4**. Mae'n rhaid i chi —

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed, ailbennu rhywedd, priodas a bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth neu grefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson; a

(d) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

**5**. Mae'n rhaid i chi beidio —

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

**6**.—(1) Mae'n rhaid i chi —

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;

(d) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(e) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Swyddog Monitro am unrhyw gollfarn droseddol a osodwyd arnoch ers gwneud eich datganiad derbyn swydd (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys troseddau y gellir eu cosbi drwy gosb benodedig).

(2) Mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

**7.** Mae'n rhaid i chi beidio —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

**8.** Mae'n rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan —

(i) bennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam arfaethedig yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion ychwanegol rhesymol a nodir gan eich awdurdod.

**9**. Mae'n rhaid i chi —

a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, fel derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**RHAN 3**
**BUDDIANNAU**

**Buddiannau Personol**

**10**.—(1) Ym mhob mater mae'n rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gennych;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi'ch penodi, unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl amdano;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi gwneud taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu unrhyw dreuliau a gafwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lleoliad busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu ganfed ran o'r cyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau cyhoeddedig y corff hwnnw

(v) unrhyw gytundeb ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chithau, neu gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr cyflogedig iddo, neu gorff o'r disgrifiad a nodir yn is-baragraff (iv) uchod.

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno a'r tenant yn gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr cyflogedig iddo, neu gorff o'r disgrifiad a nodir yn is-baragraff (iv) uchod.

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas gofrestredig, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn gyhoeddus neu bolisi;

(dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(ee) clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

rydych chi'n aelod ohono neu mewn safle o reolaeth neu reoli cyffredinol ynddo;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod lle mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 diwrnod neu fwy;

*[Noder: mae is-baragraff (b) wedi ei hepgor.]*

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw gwmni y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (ee) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy na’r mwyafrif o—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu trethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, pobl eraill sy'n talu rethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Datgelu Buddiannau Personol**

**11**.—(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, mae’n rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, mae’n rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Mae’n rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf —

(a) fanylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os oes hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu yn aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

**Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

**12**.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw —

(a) yn gysylltiedig —

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) corff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig —

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dadcu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg lawn amser, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir ynunol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymuned mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn berthnasol os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

**Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

**13**. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath)—

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

**Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau**

**14**.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef mae'n rhaid i chi, oni roddwyd ichi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod — —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal—

(i) pan fo is-baragraff (2) yn berthnasol, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(e) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu mae'n rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch gyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig i gyfarfod sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw, ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod at y diben o wneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, pa un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2B) Pan fyddwch yn cyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (2A), mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y caiff eich awdurdod ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno cynrychioliadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod gollyngiad wedi ei roi i chi ar yr amod —

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys —

(aa) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y gollyngiad a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; ac

(dd) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ollyngiad, mae'n rhaid i chi ddarparu manylion am y gollyngiad o fewn unrhyw gynrychioliad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf hwn, mae'n rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

**RHAN 4**
**COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU**

**Cofrestru Buddiannau Personol**

**15**.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), mae'n rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau —

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), mae'n rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), mae'n rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

(4) Nid yw is-baragraffau (1), (2) a (3) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn berthnasol os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

(6) Pan fyddwch yn datgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, rhaid ichi gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

**Gwybodaeth sensitif**

**16.**—(1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

**Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch**

**17**. Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.

--------------------